# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 13 a 20 Hydref 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

17 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

28 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

30 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

48 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

50 Cwestiynau i'r Trefnydd

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd Weinidogion yn y Cabinet neu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch y posibilrwydd o wella atebolrwydd Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ44340)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Dim, a byddai awgrymiadau ynglŷn ag a ellid gwella'r cod ymarfer ar fynediad cyhoeddus at wybodaeth yn cael eu hystyried o ddifrif.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wneud Cymru'n genedl sy'n beicio? (WAQ44261)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae beicio yng Nghymru'n derbyn cefnogaeth ar bob lefel ac yr wyf yn ymroddedig drwy ein strategaeth 'Dringo'n Uwch' i weld bod Cymru'n parhau i dyfu fel cenedl sy'n beicio, er mwyn y manteision chwaraeon a'r manteision iechyd i bobl Cymru.

Mae ein Cyngor Chwaraeon Cymru wedi darparu dros £7.5 miliwn ar gyfer datblygu'r felodrom cenedlaethol Cymreig – dim ond yr ail o'i fath yn y DU. Fy nymuniad yw gweld hwn yn cael ei ddatblygu'n lleoliad hyfforddi o bwys cyn Gêmau Olympaidd Llundain yn 2012. Yn ychwanegol at hynny, mae'r cyngor chwaraeon wedi darparu £475,000 eleni i gorff llywodraethol y gamp, sy'n cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar ddatblygu a chefnogi ein hathletwyr gorau ar hyn o bryd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg, ac i hybu beicio yn ein hysgolion ac ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyfrannu'n uniongyrchol drwy barhau i ariannu datblygu llwybrau beicio a cherdded drwy roi cefnogaeth ariannol i awdurdodau lleol. Er 2003-04, yr ydym wedi dyrannu £12.3 miliwn i awdurdodau lleol drwy'r cynllun grant trafnidiaeth. Mae menter Llwybrau Diogel i'r Ysgol Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael croeso brwd yng Nghymru. Fe'i cyflwynwyd ym 1999, a threfnwyd bod £18 miliwn ar gael i awdurdodau lleol, gyda thua 300 o ysgolion yn elwa.

Yr ydym yn darparu cefnogaeth a chyngor i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill drwy ein nawdd o £90,000 i Sustrans.

Bob blwyddyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid mewn llywodraeth leol yn gwario oddeutu £1 miliwn ar gynlluniau sy'n caniatáu i lwybrau beicio cenedlaethol a lleol i groesi'r rhwydwaith cefnffyrdd yn ddiogel neu i gysylltu â'r rhwydwaith. Er 1999, mae dros 50 o gynlluniau wedi eu cwblhau, sydd â'u gwerth ar y cyd oddeutu £7 miliwn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd ag Awdurdod Datblygu Cymru, Sustrans, Ymddiriedolaeth Treftadaeth y Rheilffyrdd, Cadw, Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr a Chronfa Treftadaeth y Loteri wedi llwyddo i ddatblygu'r Llwybr Celtaidd/ rhwydwaith beicio cenedlaethol lle ceir 1,000 o filltiroedd wedi eu cwblhau erbyn hyn a lleiafswm o draean o'r pellter hwnnw'n ddi-draffig.

Yn olaf, mae arian Amcan 1 wedi cynorthwyo i ddatblygu a chreu nifer o lwybrau beicio mynydd trawiadol ar draws Cymru, sy'n denu beicwyr mynydd o bob rhan o'r DU. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae Cymru wedi ei chodi i'r statws o fod yn un o'r ardaloedd blaenaf am lwybrau mynydd drwy'r byd, yn gyfartal â Cholorado a Chaliffornia, sef man geni beicio mynydd.

**Owen John Thomas:** Yng nghyswllt y targedau ar gyfer ysgolion a bennir yn Dringo'n Uwch, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol, pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

ynghylch y gostyngiad posibl yn y gweithgareddau chwaraeon a fydd yn cael eu cynnal gan ysgolion yn sgîl Cytundeb Llwyth Gwaith Athrawon? (WAQ44313)

**Alun Pugh:** Yr ydym yn ymwybodol bod rhai ysgolion yng Nghymru wedi gwneud cynnydd sylweddol mewn gweithredu'r cytundeb llwyth gwaith athrawon drwy ehangu'r ystod o brofiadau a dysgu sydd ar gael i'w disgyblion. Mae hynny'n cynnwys darparu cyfleusterau newydd i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn ystod y diwrnod ysgol tra'n bodloni gofynion y cytundeb.

Mae swyddogion yn ymroddedig i weithio gyda Chyngor Chwaraeon Cymru, ysgolion ac awdurdodau addysg lleol i annog yr ysgolion i ailddiffinio eu strategaethau ar gyfer gweithredu'r cytundeb llwyth gwaith mewn ffyrdd sy'n gwella cyfleoedd i ddisgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ynghylch y cynnydd sydd wedi ei wneud gyda gweithredu'r targedau ar gyfer cyfrannu at weithgareddau chwaraeon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd a nodir yn Dringo'n Uwch, Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol? (WAQ44314)

**Alun Pugh:** Pan gyhoeddais strategaeth 'Dringo'n Uwch' yn gynharach eleni cyhoeddais nifer o gynlluniau a fydd yn helpu i gyflawni ein nodau a'n targedau strategol. Er enghraifft, mae Cyngor Chwaraeon Cymru eisoes wedi cyflwyno nifer o brosiectau peilot Campau'r Ddraig mewn ysgolion uwchradd a fydd yn gwella cyfranogiad allgyrsiol yn fawr. Yr wyf wedi cyhoeddi fy mwriad i neilltuo cyllid ychwanegol sylweddol i'r fenter hon yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Yr ydym hefyd yn ariannu'r prosiect addysg gorfforol a chwaraeon ysgol sy'n golygu tua £1.8 miliwn y flwyddyn. Caiff y cynllun hwn ei reoli gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac mae wedi cael adroddiadau arolygu da iawn gan Estyn am y dull newydd a fabwysiedir a'r gwahaniaeth y mae'n ei wneud yn nhermau gwella Addysg Gorfforol mewn ysgolion.

Yn ychwanegol at hynny, caiff y cynllun hyfforddi newydd ei gynnal â chyllid ychwanegol o dros £3.9 miliwn i gwmpasu cyfnod o dair blynedd yn y lle cyntaf. Bydd hyn yn darparu gwell hyfforddwyr ac arweinwyr yn ein cymunedau a mwy ohonynt, a bydd hynny'n cael effaith ar du mewn a thu allan yr amgylchfyd ysgol fel ei gilydd.

Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar goladu gwybodaeth llinell sylfaen er mwyn i ni allu monitro cynnydd ar y targedau a osodwyd gennym yn 'Dringo'n Uwch'. Ac yr ydym yn ymroddedig i gyhoeddi adroddiadau gwerthuso hanner ffordd drwy bob tymor Cynulliad, gan ddechrau yn 2009.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau i sicrhau sefydlogrwydd ariannol yr Eisteddfod Genedlaethol? (WAQ44342)

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gydag CLlLC ynghylch y setliad ariannol ar gyfer yr Eisteddfod Genedlaethol a beth oedd y cyfanswm y cytunwyd arno? (WAQ44351)

**Alun Pugh:** Gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad gyfraniad sylweddol o £400,000 i'r Eisteddfod Genedlaethol eleni, cynnydd o dros 10 y cant ar grant craidd y llynedd.

Cefais gyfarfod cynhyrchiol iawn gyda'r Cynghorydd Alex Aldridge, arweinydd CLlLC ar 27 Medi, pryd y daethpwyd i gytundeb mewn egwyddor i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol i sefydlu dyfodol ariannol cadarn. Mae'r gefnogaeth hon yn ddibynnol ar raglen barhaus o foderneiddio, er mwyn sicrhau effeithiolrwydd parhaol yn ogystal ag ehangu apêl yr Eisteddfod, sy'n hanfodol ar gyfer dyfodol cynaliadwy. Bydd trafodaethau manylach rhwng yr holl bartïon yn dilyn ar ôl hyn.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cymorth parhaus i Wŷl Jazz Aberhonddu? (WAQ44374)

**Alun Pugh:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cydnabod pwysigrwydd gŵyl jazz ryngwladol Aberhonddu fel digwyddiad diwylliannol o bwys. Mae'n un o'r gwyliau sydd â'r mwyaf o fri ym Mhrydain, gan ddod â llawer o berfformwyr mwya'r byd jazz at ei gilydd. Dros y tair blynedd diwethaf, yr ydym wedi darparu dros £400,000 i gefnogi'r ŵyl. Mae fy swyddogion a Chyngor Celfyddydau Cymru yn cymryd rhan mewn trafodaethau sy'n dal i fynd rhagddynt gyda chyfarwyddwr gweithredol a chadeirydd yr ŵyl ynglŷn â'i dyfodol tymor hir.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff y cynnydd o £300,000 y flwyddyn yn y cyllid a gaiff ei roi ar gyfer criced gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ei wario? (WAQ44375)

**Alun Pugh:** Fel y dywedais yn fy ateb i chi ar 28 Medi (OAQ0346/05) bu cynnydd o 10 y cant yn y cyllid i hyrwyddo criced fel gêm yng Nghymru gan arwain at becyn cyllido llawn o £307,000 eleni. Defnyddir y cyllid hwn i helpu i gefnogi canolfannau rhagoriaeth rhanbarthol a chanolfannau datblygu lleol, sefydlu cynghreiriau ieuenctid, creu, datblygu a chadw rhagor o hyfforddwyr a datblygu mentrau i fenywod a merched i annog mwy o gyfranogiad yn y gêm. Mae hyn yn cyfrannu at amcanion ehangach 'Dringo'n Uwch' drwy gefnogi cyfleoedd i bobl gymryd rhan mewn chwaraeon ar lefel sylfaenol yn ogystal â chynorthwyo i ddatblygu'r llwybr perfformiad ymhellach.

**Leighton Andrews:** A gaiff 'Rasio Beiciau Sgramblo' ei ystyried fel chwaraeon gan Gyngor Chwaraeon Cymru ac os felly, pa grantiau a ddyfarnwyd ar ei gyfer? (WAQ44420)

**Alun Pugh:** Ffederasiwn Beicio Modur Cymru sy'n gyfrifol am feicio modur yng Nghymru. Mae'r ffederasiwn yn cynrychioli pedwar o gyrff a phwyllgorau cenedlaethol, sy'n cwmpasu gwahanol elfennau o'r gamp, sef ras ddal ati, rasio ffyrdd, treialon a 'motorcross'. Mae rasio beiciau sgramblo'n cael ei ddosbarthu fel disgyblaeth o 'motorcross' ac fel y cyfrwys mae'n weithgaredd cydnabyddedig sy'n gymwys am gyllid gan Gyngor Chwaraeon Cymru.

Mae'r Ffederasiwn yn derbyn tua £8,000 y flwyddyn gan y cyngor chwaraeon ar gyfer cefnogi datblygu'r corff llywodraethol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw gamau y mae'n eu cymryd i sefydlu mecanweithiau rhybuddio cynnar i dynnu sylw Llywodraeth y Cynulliad at anawsterau posibl o fewn sectorau a chwmnïau penodol? (WAQ44250)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Yr wyf i a'm swyddogion yn monitro'r sefyllfa economaidd yng Nghymru, gan dynnu ar ystadegau economaidd a chysylltiadau uniongyrchol â chwmnïau a sefydliadau busnes fel ei gilydd.

**Ann Jones:** Pa fesurau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd ar hyn o bryd i leihau llygredd sŵn o gefnffyrdd a thraffyrdd yng Nghymru, a pha fesurau sydd ganddo ar y gweill ar gyfer y dyfodol? (WAQ44253)

**Andrew Davies:** Yn 2002 comisiynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru astudiaeth i asesu graddfa sŵn traffig ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd yng Nghymru. Wrth wneud hynny yr oedd yn rhaid sefydlu meini prawf hidlo llym er mwyn ei gwneud yn bosibl i ddynodi nid yn unig ardaloedd a effeithir

gan sŵn traffig ond hefyd penderfynu ar fesurau lleddfu ymarferol i fynd i'r afael â'r ardaloedd hynny lle yr ystyrid bod y gwaith yn flaenoriaeth. Mae adroddiad yr astudiaeth sŵn traffig a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2002 yn cynrychioli rhaglen fras am 10 mlynedd a ddyluniwyd i fynd i'r afael â'r mannau ar y rhwydwaith lle y mae sŵn ar ei waethaf.

Yr ydym bron â chwblhau'r gwaith cychwynnol sy'n cynnwys gosod wyneb newydd sŵn isel mewn mannau ar y rhwydwaith a ddynodwyd gan y rhaglen. Mae'r gwaith paratoi ar gyfer y cam nesaf sy'n cynnwys rhwystrau sŵn ar y gweill a disgwylir dechrau eu gosod yn eu lle yn y flwyddyn ariannol newydd.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gweithredu i roi cyfarwyddeb sŵn amgylcheddol 2002/49/EC ar waith. Nod y gyfarwyddeb yw diffinio agwedd gyffredin ledled yr Undeb Ewropeaidd gyda'r bwriad o osgoi, rhwystro neu leihau ar sail blaenoriaethol yr effeithiau niweidiol, yn cynnwys annifyrrwch, o ganlyniad i sŵn amgylcheddol.

Mae hyn ymhlith nifer o faterion a gynhwysir yn y gyfarwyddeb a bydd yn golygu paratoi mapiau sŵn strategol ar gyfer ffyrdd mawr fel y'u diffinnir yn y gyfarwyddeb a pharatoi cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar ganlyniadau'r ymarfer mapio sŵn Bydd cynlluniau o'r fath yn anelu at reoli a lleihau sŵn amgylcheddol lle y mae angen, a chadw ansawdd sŵn amgylcheddol lle y mae'n dda. Caiff y broses mapio sŵn a chynllunio gweithredu ei symud ymlaen ar raglen dreigl bum mlynedd. Mae'r rownd gyntaf o fapio a chynllunio gweithredu mewn perthynas â ffyrdd yn ymwneud â'r ffyrdd mawr prysuraf. Mae'n rhaid cynhyrchu'r mapiau erbyn 30 Mehefin 2007 a'r cynlluniau gweithredu yn dilyn flwyddyn yn ddiweddarach yn 2008. Yn ystod yr ail rownd yn 2012-13 caiff yr holl ffyrdd mawr eraill, fel y'u diffinnir gan y gyfarwyddeb, eu mapio a datblygir cynlluniau gweithredu ar eu cyfer hwy hefyd.

Pan gaiff ei gwblhau, bydd hyn hefyd yn cynrychioli corff sylweddol o waith ac, ar gyfer ardaloedd ar y rhwydwaith traffyrdd a chefnffyrdd nas cynhwyswyd yn adroddiad astudiaeth sŵn traffig 2002, bydd y cynlluniau gweithredu dilynol yn dynodi'r gwaith angenrheidiol lle yr ystyrir bod ei angen.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba drafodaethau y mae wedi eu cynnal ynglŷn â phenderfyniad cwmni creision Walkers i roi'r gorau i gynhyrchu yn Abertawe? (WAQ44254)

**Andrew Davies:** Rhoddodd y cwmni wybod i mi am eu penderfyniad ar 20 Medi. Ar 21 Medi, cyfarfu swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, Awdurdod Datblygu Cymru a Dinas a Sir Abertawe â chynrychiolwyr y cwmni a derbyniais adroddiad o'r cyfarfod hwnnw. Cafwyd trafodaethau dilynol ar lefel swyddogion i wneud trefniadau i gynnig cefnogaeth i'r gweithwyr gan yr asiantaethau perthnasol yn y sector cyhoeddus. Yr wyf hefyd wedi bod mewn cysylltiad â swyddogion Undeb y Gweithwyr Siopau, Dosbarthu a Gwaith Perthynol, yr undeb llafur cydnabyddedig yn y gwaith.

**Kirsty Williams:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i atal y cynnydd cyfredol mewn cyfraddau anweithgarwch economaidd yng Nghymru? (WAQ44255)

**Andrew Davies:** Mae gwybodaeth ddiweddaraf arolwg y llafurlu, ar gyfer misoedd Mai i Orffennaf 2005, yn dangos bod y gyfradd anweithgarwch economaidd ymhlith pobl o oedran gweithio yng Nghymru yn 24.9 y cant. Mae hynny'n cynrychioli gostyngiad o 0.3 y cant mewn cymhariaeth â'r ffigwr am y cyfnod o Chwefror i Ebrill 2005. Ers i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ddod i fodolaeth ym 1999, mae'r gyfradd anweithgarwch economaidd wedi gostwng 0.7 y cant, tra bod cyfradd y DU wedi codi ychydig.

Er hynny, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymryd ystod eang o gamau i ostwng y cyfraddau anweithgarwch economaidd ymhellach. Mae ein fframwaith ar gyfer camau i godi cyfraddau gweithgarwch economaidd wedi ei nodi yn 'Cymru: Gwlad Well', Pobl, Lleoedd, Dyfodol: Cynllun

Gofodol Cymru', a chynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth Cymru 2005. Caiff ei ystyried hefyd yn yr ail strategaeth ddatblygu economaidd sydd i ddod.

Mae'r ymateb diweddar i adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, 'Anweithgarwch Economaidd yng Nghymru', a hefyd adroddiad Llywodraeth y Cynulliad, 'Codi Cyfraddau Gweithgarwch Economaidd' yn adolygu'r posibiliadau ar gyfer camau newydd ac yn dynodi mesurau penodol i helpu'r rheiny sy'n anweithgar yn economaidd. O ganlyniad, yr ydym yn gweithio'n agos gyda Chanolfan Byd Gwaith Cymru ar ddatblygu a chyflwyno menter Yn Awyddus i Weithio, sy'n gweithredu ar hyn o bryd yn ardaloedd Caerdydd, Merthyr Tudful a Chastell-nedd Port Talbot. Mae'r prosiect hwn yn cynnig cefnogaeth ddwys i helpu pobl sy'n hawlio budd-dal, a fyddai'n hoffi gweithio, i wneud y newid i gyflogaeth. Mae cynigion yn cael eu hystyried ar hyn o bryd i ehangu Yn Awyddus i Weithio i ogledd Cymru yn ystod 2006.

**Alun Cairns:** Faint o wrthwynebiadau a dderbyniodd y Gweinidog i'r gorchymyn drafft sy'n ymwneud ag uwchraddio'r A48/A4226 o Groes Cwrlwys i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd? (WAQ44270)

**Andrew Davies:** Cafwyd saith gwrthwynebiad i'r Gorchymyn drafft.

**Alun Cairns:** Pryd bydd y Gweinidog yn cyhoeddi canlyniadau'r ymgynghori ar y gorchymyn drafft sy'n ymwneud â throi'r A48/A4226 o Groes Cwrlwys i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd yn gefnffordd? (WAQ44271)

**Andrew Davies:** Mae swyddogion Trafnidiaeth Cymru Llywodraeth y Cynulliad yn ystyried ymatebion i'r Gorchymyn drafft a gyhoeddwyd ac yn bwriadu cyfarfod â Chyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn a thrigolion Tresimwn yn y dyfodol agos. Felly, yr wyf yn disgwyl gwneud cyhoeddiad ar ddiwedd Tachwedd.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth i'r sector Optoelectroneg yng Nghymru? (WAQ44275)

**Andrew Davies:** Mae cefnogaeth Llywodraeth y Cynulliad i'r sector optoelectroneg pwysig yng Nghymru yn cynnwys technium OpTIC yn Llanelwy, sy'n denu mewnfuddsoddiad ac ymchwil flaengar, a Fforwm Optoelectroneg Cymru, sy'n gweithredu yng ngogledd a de Cymru fel ei gilydd.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiadau sy'n berthnasol i'r cais am gymorth lansio i ddatblygu adenydd cyfansawdd i'r A350? (WAQ44276)

**Andrew Davies:** Derbyniwyd cais am gymorth lansio i'r A350 gan yr Adran Masnach a Diwydiant ym mis Mawrth 2005. Mae trafodaethau manwl gydag Airbus ynglŷn â'r cais yn mynd rhagddynt.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am ei flaenoriaethau ar gyfer gwella'r seilwaith ffyrdd yn y Canolbarth? (WAQ44277)

**Andrew Davies:** Mae fy mlaenoriaethau cyfredol ar gyfer gwelliannau mawr i'r seilwaith ffyrdd yng Nghymru wedi eu nodi yn atodiad 2004 blaenraglen cefnffyrdd 2002. Yn ychwanegol at y rhaglen hon o welliannau mawr, yr ydym hefyd yn canlyn nifer fawr o gynlluniau gwella llai uchelgeisiol. Enghreifftiau o'r rhain yw'r gwelliant sydd newydd ei gwblhau yn Heol Draw ar yr A40 i'r dwyrain o Aberhonddu, a'r gwelliant sydd wedi'i gynllunio yng Nglandyfi ar yr A487.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi ynni Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ44278)

**Andrew Davies:** Ar 20 Mehefin lansiais fap llwybr ynni Cymru i symud ymlaen â'n gweledigaeth o roi Cymru ar flaen y gad o ran cynhyrchu ynni glân ac effeithiolrwydd ynni. Yr oedd yn cynnwys ystod eang o gamau ar gyfer cynhyrchu ynni sicr, amrywiol yng Nghymru, sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd tra'n cynnal ein safle cystadleuol yn economaidd. Yr ydym ar hyn o bryd yn dadansoddi'r ymatebion a bydd y Prif Weinidog a minnau ar y cyd yn cadeirio uwchgynhadledd ynni gyda phrif gynhyrchwyr ynni Cymru, defnyddwyr a rhanddeiliaid ym mis Rhagfyr i drafod sut y mae symud y polisi ynni ymlaen.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gyllideb cynnal a chadw ffyrdd? (WAQ44279)

**Andrew Davies:** Mae gan Lywodraeth y Cynulliad, fel awdurdod priffyrdd ar gyfer y traffyrdd a'r cefnffyrdd yng Nghymru, gyllideb o £28.9 miliwn ar gyfer cynnal a chadw bob dydd a £27.8 miliwn ar gyfer cynnal a chadw sylweddol ac adnewyddu yn 2005-06.

Nid yw'r cyllid ar gyfer cynnal ffyrdd lleol yng Nghymru wedi ei bridiannu. Mae awdurdodau lleol unigol yn gosod eu cyllidebau eu hunain ar gyfer cynnal y rhwydwaith ffyrdd lleol o'r grant bloc a gânt gan lywodraeth ganol am eu gwasanaethau i gyd.

**Peter Black:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i helpu busnesau bach? (WAQ44280)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cefnogi ac yn ariannu ystod o fentrau i helpu busnesau bach. Mae'r rhain yn cynnwys cyngor cyffredinol, cefnogaeth arbenigol, help gyda chyfleoedd caffael, cefnogaeth TGCh a grant buddsoddi'r Cynulliad. Mae hefyd yn noddi'r gwasanaeth Llygad Busnes, sy'n darparu gwybodaeth ddiduedd am ddim ac yn cyfeirio cwmnïau bach at ddarparwyr cefnogi busnes yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

**Jenny Randerson:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i annog gweithgarwch deillio o brifysgolion? (WAQ44283)

**Andrew Davies:** Mae annog gweithgarwch deillio yn hanfodol i strategaeth Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu'r economi gwybodaeth yng Nghymru. Mae ystod o fentrau a rhaglenni wedi eu cyflwyno i helpu i hwyluso'r broses hon, yn cynnwys y gronfa datblygu gwybodaeth, rhaglen ddeillio Cymru, a rhaglen canolfannau technium Cymru gyfan.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fuddiannau economaidd ymchwilio i nwy naturiol oddi ar arfordir Cymru? (WAQ44284)

**Andrew Davies:** Mae'r rhy gynnar i fesur buddiannau economaidd posibl y prosiect. Bydd drilio'n dechrau y mis hwn i sefydlu a oes digon o nwy naturiol dan yr wyneb i wneud piblinell barhaol yn ymarferol, a disgwylir y canlyniad y gwanwyn nesaf. Mae Marathon Oil yn gobeithio y bydd yr archwilio newydd yn dod â swm y nwy sydd ar gael i fyny at 250 biliwn troedfedd giwbig – unrhyw beth llai ac mae'n annhebygol y bydd yn werth gosod piblinell. Os canfyddir digon o nwy, gellid gosod piblinell i arfordir Cymru erbyn 2008 sy'n golygu swyddi adeiladu a rhai'n gysylltiedig ag ynni. Wrth i ddichonolrwydd a maint y prosiect ddod i'r golwg, bydd Awdurdod Datblygu Cymru yn ymdrechu i sicrhau y gwneir y gorau o'r cyfleoedd datblygu economaidd drwy'r gadwyn gyflenwi.

Os yw'r disgwyliadau'n gywir, bydd maes y ddraig yn safle tair ffynnon yn cynhyrchu nwy gan fwyaf ac ychydig o olew – tua 600 baril y dydd – am naw i 10 mlynedd. Disgwylir y nwy cyntaf yn 2009. Gellid defnyddio'r nwy, sy'n debyg mewn gwneuthuriad ac ansawdd i nwy Môr y Gogledd, i 'gryfhau' nwy

naturiol hylifedig i'w godi i safonau'r DU, gan ychwanegu felly at statws newydd sir Benfro fel un o'r canolbwyntiau allweddol o ran ynni yn y DU.

**Carl Sargeant:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus yng Nghymru? (WAQ44285)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n parhau i fuddsoddi symiau sylweddol mewn datblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus hygyrch, integredig yng Nghymru. Yn ogystal â seilwaith newydd a gwell sydd o fudd i fysiau a threnau, yr wyf yn ariannu bysiau cymorthdaledig a chludiant cymunedol drwy grantiau gwasanaethau cludiant lleol i awdurdodau lleol. Mae cyllid ychwanegol yn cefnogi prosiectau cludiant lleol blaengar, gwell rhwydwaith o wasanaethau bws pellter hir, gwell gwybodaeth am gludiant cyhoeddus a chynlluniau teithio personol, yn ogystal â gwell gwasanaethau trên. Mae hyn yn cynnwys rhaglen gyfredol o welliannau i orsafoedd rheilffyrdd ar draws gogledd Cymru yn dilyn rhaglen flaenorol ar draws de a chanolbarth Cymru, a chyfnewidfeydd newydd yn Llanilltud Fawr a Maes Awyr Rhyngwladol Rhws Caerdydd ar reilffordd Bro Morgannwg, lle y dechreuodd gwasanaethau i deithwyr yng nghanol mis Mehefin. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn gwneud astudiaeth i gyflenwi gwell hygyrchedd yn gyson ledled Cymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ariannu gwelliannau i orsafoedd ledled Cymru yn ogystal â darparu rhaglen £50 miliwn o gefnogaeth ar gyfer rhagor o gerbydau ar reilffyrdd Cymoedd Caerdydd a rhwydweithiau traws-gwlad. Yr wyf yn darparu cyllid o £2 filiwn ar gyfer teledu cylch cyfyng ar drenau ledled Cymru. Yn ychwanegol at hynny, yr wyf yn darparu cefnogaeth ar gyfer agor rheilffordd Glynebwy yn 2006-07.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu economaidd yn y De? (WAQ44286)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn falch iawn o adrodd am gynnydd cadarnhaol mewn datblygu economaidd yn Ne Cymru gyda 54,000 (7.6 y cant) yn fwy o bobl mewn gwaith cyflogedig nag a oedd ym 1999.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y bwriad i adleoli swyddi Llywodraeth y DU i Gymru? (WAQ44287)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi sefydlu tîm i hyrwyddo Cymru fel lleoliad ar gyfer adrannau'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus anadrannol sy'n ceisio symud o dde ddwyrain Lloegr dan adolygiad Lyons o adleoli'r sector cyhoeddus. Mae'n gyfle gwych i ni ennill swyddi cynaliadwy o ansawdd da.

Hyd yma mae tua 1,600 o swyddi wedi eu sicrhau, yn cynnwys adleoli'r 600 o swyddi Ystadegau Gwladol i Gasnewydd a 500 o swyddi mewn canolfan gwasanaethau rhanedig ar gyfer Gwasanaeth Carchar Ei Mawrhydi, hefyd yng Nghasnewydd. Croesewir y penderfyniadau hyn yn gynnes iawn, yn enwedig gan y dylent ein helpu i berswadio eraill o ragoriaethau Cymru fel lleoliad i'w gweithgareddau.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fodolaeth unrhyw reoliadau cyfyngu cyflymder ar ffyrdd ger ysgolion yng Nghymru? (WAQ44288)

**Andrew Davies:** Ni cheir unrhyw reoliadau penodol i gyfyngu cyflymder ar ffyrdd ger ysgolion yng Nghymru. Er hynny, mae gan awdurdodau priffyrdd bŵer i ostwng terfynau cyflymder yn ymyl neu o gwmpas ysgolion. Fel arfer caiff y rhain eu datblygu drwy ymgynghori â'r heddlu, a gallant gynnwys darparu mesurau tawelu traffig ar y briffordd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith ffyrdd ar yr A44 ym Mhontair? (WAQ44322)

**Andrew Davies:** Mae goleuadau traffig dros dro wedi eu gosod ers peth amser ychydig i'r gorllewin o Bonterwyd ar yr A44 o ganlyniad i ddamwain ar y ffordd a ddinistriodd y ffens ddiogelwch a'r hyn oedd yn ei chynnal ar hyd ymyl y ffordd. Dechreuodd contract wyth wythnos ar 26 Medi i ailadeiladu'r hyn sy'n cynnal y ffordd a gosod ffens ddiogelwch newydd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddiogelwch ffyrdd yng nghymuned Nant Ddu ar yr A470 i'r de o Aberhonddu? (WAQ44323)

**Andrew Davies:** Pentref bach iawn yw Nant Ddu ar yr A470, gyda phâr o dai dan yr unto â'u tu blaen yn wynebu'r gefnffordd. Er nad oes cyfyngiad ar yr A470 yn yr ardal hon, mae 85 y cant o'r traffig yn teithio ar 52mya neu lai, a dim ond 45mya yw cyflymder y traffig ar gyfartaledd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf dim ond un ddamwain a achosodd anaf sydd wedi digwydd o fewn 250 metr i'r pâr o dai. Er gwaethaf y cyflymder cymharol isel a'r cofnod damweiniau cymharol dda hyn, ceir ceisiadau o hyd i osod terfyn cyflymder is. Ni allwn gefnogi'r ceisiadau hyn. Yr ydym er hynny'n gwneud rhywfaint o fân welliannau ar y llwybr troed, ynghyd â gwelliannau i'r marciau ar y ffordd a'r arwyddion, mewn ymgais i roi rhagor o esmwythyd i'r trigolion.

**Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Gymorth Rhanbarthol Dewisol (RSA) a buddsoddiad Grant Buddsoddi'r Cynulliad (AIG) yng Nghonwy? (WAQ44326)

**Andrew Davies:** Ers cychwyn y Cynulliad, gwnaethpwyd 30 o gynigion RSA gwerth £7.1 miliwn i gwmnïau yn ardal etholaeth Conwy. Disgwylir i'r cynigion hyn dynnu dros £323.5 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf i mewn a chreu neu ddiogelu 880 o swyddi. Enghreifftiau o gwmnïau yn yr ardal sydd wedi cael cymorth yw Deepstream Technologies a The Book People.

Lansiais grant buddsoddi'r Cynulliad ym mis Ebrill 2002. Hyd yma, gwnaethpwyd 37 o gynigion i gwmnïau sydd wedi eu lleoli yn etholaeth Conwy, gwerth £1.2 miliwn. Rhagamcanir y bydd y prosiectau hyn yn denu buddsoddiad o £3.3 miliwn ac, er nad yw'n gynllun creu swyddi, disgwylir iddynt greu 56 o swyddi newydd.

**Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygu twristiaeth yn y Gogledd? (WAQ44327)

**Andrew Davies:** Yn ystod y cyfnod o 1 Ebrill 2003 hyd 31 Mawrth 2005 mae Bwrdd Croeso Cymru wedi dyrannu grantiau o £8.7 miliwn i 141 o brosiectau yng ngogledd Cymru. Cynhyrchodd hyn ychydig dros £60 miliwn o fuddsoddiad a 614 o swyddi cyfartal i amser llawn.

Mae Bwrdd Croeso Cymru hefyd yn darparu cyllid i Bartneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru i weithredu ei strategaeth twristiaeth ranbarthol - £1.144 miliwn yn 2005-06. Mewn partneriaeth ag Awdurdod Datblygu Cymru ac awdurdodau lleol mae Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru hefyd wedi sicrhau dros £1m o gyllid Amcan 1 i gefnogi digwyddiadau yn yr ardal a helpu i estyn y tymor twristiaeth. Mae gweithgareddau'r Bartneriaeth wedi eu rhestru yn ei chynllun busnes ar gyfer 2005-06, y gellir ei weld ar ei gwefan ar www.tpnw.org.

**Denise Idris Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Adran Masnach a Diwydiant ynghylch datblygiad fferm wynt Gwynt y Môr a'i effaith ar etholaeth Conwy? (WAQ44328)

**Andrew Davies:** Dim gyda Gweinidogion yr Adran Masnach a Diwydiant hyd yma. Er hynny, mae fy swyddogion yn rhan o grŵp ynni adnewyddadwy allan yn y môr y Llywodraeth ac Ystadau'r Goron sy'n

trafod ystod o faterion sy'n ymwneud â datblygu ynni adnewyddadwy allan yn y môr, yn cynnwys ffermydd gwynt.

**Nick Bourne:** Faint o gyllid y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i Drenau Arriva Cymru? (WAQ44329)

**Andrew Davies:** Er mis Mai 2000 yr ydym wedi darparu cyllid o tua £700,000 y flwyddyn ar gyfer gwasanaethau trenau gogledd-de yng Nghymru. Yr ydym hefyd yn darparu rhaglen gefnogi o £50 miliwn ar gyfer cerbydau ychwanegol ar reilffyrdd Cymoedd Caerdydd a rhwydweithiau traws-gwlad a chyllid o £0.022 miliwn dros dair blwyddyn ariannol ar gyfer gwasanaeth Sul ychwanegol ar reilffordd Calon Cymru.

Yn ychwanegol at hynny yr ydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith rheilffyrdd yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| £17 miliwn | Rheilffordd Bro Morgannwg |
| £2.6 miliwn | Estyn platfform rheilffordd Aberdâr |
| £2 filiwn | Teledu cylch cyfyng ar holl drenau Trenau Arriva Cymru |
| £27 miliwn | Cam 1 Glynebwy—gwasanaeth bob awr i Gaerdydd |
| £1.6 miliwn | Gwelliannau i groesfannau rheilffyrdd ar Reilffordd y Cambrian |
| £3 miliwn | Gwelliannau i gynhwysedd Caerffili i Fargoed |
| £2.5 miliwn | Gwelliannau i 47 o orsafoedd ar draws de a chanolbarth Cymru |
| £1.5 miliwn | Gwelliannau i 11 o orsafoedd rheilffordd ar draws gogledd Cymru |

**Lisa Francis:** Yn dilyn yr ateb i WAQ44158, pryd y bydd y Gweinidog mewn sefyllfa i gadarnhau swm a chanran y gyllideb trafnidiaeth a gaiff ei gwario yn 2005-06 ym mhob un o 5 rhanbarth etholiadol Cymru? (WAQ44338)

**Andrew Davies:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i gwestiwn ysgrifenedig (WAQ44158). Ni ellir cynhyrchu gwybodaeth ar gyllidebau trafnidiaeth yn hawdd ar y lefel hon o fanylder.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau'r swm a'r ganran o'i raglen 15-mlynedd gwerth £8 biliwn i wella seilwaith trafnidiaeth a gaiff ei wario ym mhob un o'r 5 rhanbarth yng Nghymru? (WAQ44341)

**Andrew Davies:** Ni ellir cynhyrchu gwybodaeth ar y rhaglen yn hawdd ar y lefel hon o fanylder.

**Helen Mary Jones:** Sut y caiff y gwaith o ail-agor Rheilffordd Glynebwy ei ariannu? (WAQ44349)

**Andrew Davies:** Caiff ail-agor rheilffordd Glynebwy i deithwyr ei ariannu o dair ffynhonnell. Darperir rhyw £7 miliwn o gronfa adfywio Corus Llywodraeth Cynulliad Cymru, £7.5 miliwn drwy gronfa Amcan 1 Ewrop, a'r gweddill drwy bwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu grant trafnidiaeth i awdurdodau lleol dan adrannau 87 ac 88 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Helen Mary Jones:** Sut y cafodd y gwaith o ail-agor Rheilffordd Bro Morgannwg i deithwyr ei ariannu? (WAQ44350)

**Andrew Davies:** Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ail-agor Rheilffordd Bro Morgannwg yn uniongyrchol drwy ei phwerau dan adran 56 Deddf Trafnidiaeth 1968.

Ariannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd ddarparu cyfnewidfeydd cludiant yng ngorsafoedd y Rhws a Llanilltud Fawr ar hyd y rheilffordd drwy ddefnyddio'i phwerau grant trafnidiaeth dan adrannau 87 ac 88 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988.

**Leighton Andrews:** Beth fu'r prif ffactorau sydd wedi effeithio ar y cynnydd yng nghostau ffordd liniaru Porth Rhondda Fach? (WAQ44419)

**Andrew Davies:** Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n symud ymlaen â Ffordd Liniaru'r Porth/Gwaelod y Rhondda Fach. Yr amcangyfrif diweddaraf am gost y cynllun yw tua £87 miliwn, ac mae llawer o'r gwahaniaeth o amcangyfrif y llynedd yn adlewyrchu lwfans ar gyfer chwyddiant costau.

**Leighton Andrews:** Beth yw polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru tuag at ddad-gyfreithloni parcio gan awdurdodau lleol ac a wnaiff ddatganiad am hynny? (WAQ44432)

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cymeradwyo egwyddorion dad-gyfreithloni gorfodi rheolau parcio, sydd wedi eu rhestru yng Nghylchlythyr 26/95 y Swyddfa Gymreig. Yr wyf yn ystyried mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu a ddylent wneud cais am bwerau o'r fath ar ôl ymgynghori â'r heddlu lleol.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, yn cynnwys amserlenni, am y cynnydd a wneir tuag at gynyddu amlder gwasanaeth rheilffordd i deithwyr rhwng Caerdydd a Rhymni? (WAQ44436)

**Andrew Davies:** Mae'r prosiect seilwaith i hwyluso hyn yn cael ei weithredu mewn dau gam. Mae'r cam cyntaf yn gynllun carlam a bydd yn caniatáu rhedeg pedwar trên teithwyr yr awr i Fargoed yn gynnar yn 2006. Bydd yr ail gam yn symud ymlaen â'r gwaith dichonolrwydd sydd wedi nodi'r gweithfeydd sy'n angenrheidiol ar y trac a'r signalau er mwyn caniatáu dau drên yr awr i Rymni erbyn 2009.

**Huw Lewis:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni, yn cynnwys amserlenni, am y cynnydd a wneir tuag at gynyddu amlder gwasanaeth rheilffordd i deithwyr rhwng Caerdydd a Merthyr Tudful? (WAQ44437)

**Andrew Davies:** Disgwylir i'r prosiect seilwaith i hwyluso gwasanaeth i deithwyr bob hanner awr rhwng Merthyr Tudful a Phontypridd fod wedi ei gwblhau erbyn 2008.

**Kirsty Williams:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'i wneud i Ganghellor y Trysorlys am y seibiannau treth arfaethedig yn cynnwys y pensiwn SIPP (Cynlluniau Pensiwn Hunan Fuddsoddi) newydd? (WAQ44443)

**Andrew Davies:** Yr wyf yn trafod llawer o faterion gyda Llywodraeth y DU, waeth a ydynt wedi eu datganoli ai peidio, yn cynnwys materion yn ymwneud â phensiynau.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Owen John Thomas:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i ddiogelu dyfodol y chweched dosbarth o ganlyniad i'r ffaith bod colegau addysg bellach yn parhau i ehangu? (WAQ44257) [W]

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Bydd y chweched dosbarth mewn ysgolion yn parhau i chwarae rôl ganolog, ar y cyd â sefydliadau addysg bellach, wrth ehangu cyfleoedd i ddysgu ar ôl 16 oed.

Mae Dysgu ac Addysgu Cymru wedi profi ei hun o ran y buddsoddiad sylweddol a wnaeth mewn darpariaethau dysgu i bobl ifanc gan ganolbwyntio ar ddefnyddio arian ychwanegol mewn ffordd sy'n arwain at sefydlu cyfradd gyllido gyson ar gyfer Cymru gyfan yn unol â'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol ar gyfer yr holl ddarparwyr ôl-16 erbyn 2010. Y bwriad yw y bydd hyn yn parhau o dan gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth y Cynulliad am y ddwy flynedd nesaf. Yn ogystal â hynny, mae gan ELWa gynlluniau i ddiogelu'r cyllid gogyfer â chyflwyno'r system gynllunio ac ariannu genedlaethol a fydd yn gwarantu'r cyllid a fydd ar gael ar gyfer y chweched dosbarth ac yn caniatáu cynllunio at y dyfodol mewn cyd-destun diogel. Bydd y trefniadau trosiannol hyn yn cael eu cynnal gan Lywodraeth y Cynulliad ar ôl yr uno sydd ar y gweill.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyflwr adeiladau ysgolion yng Nghymru? (WAQ44262)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r wybodaeth sydd ganddi am gyflwr ysgolion ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru, amcangyfrif o gost y gwaith hwnnw a pha mor gyfredol yw'r wybodaeth honno? (WAQ44264)

**Jane Davidson:** Mae cynnydd da'n cael ei wneud ar wella adeiladau ysgolion. Er 2002, mae 1,400 o brosiectau wedi derbyn grant gwella adeiladau ysgolion Llywodraeth y Cynulliad, yn cynnwys 66 a oedd yn costio dros £0.5 miliwn. Mae rhyw 49 o brosiectau mawr sy'n costio £81 miliwn wedi eu cymeradwyo, gan ddefnyddio cyfandaliadau £9 miliwn yr awdurdodau. Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf mewn ysgolion wedi cynyddu i £143 miliwn yn 2005-06 a disgwylir iddo barhau ar y lefel hon yn flynyddol.

Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cadw gwybodaeth ar gyflwr ysgolion unigol yng Nghymru. Gwneir arolygon o gyflwr adeiladau gan awdurdodau lleol ac mae'r wybodaeth dechnegol yn bwydo i mewn i gynllun rheoli asedau gwasanaeth addysg yr AALl. Dylai'r wybodaeth honno fynd y tu hwnt i edrych ar gostau atgyweirio ac ymdrin â rheoli ystâd yr ysgol yn nhermau codi ysgolion newydd, adnewyddu ac atgyweirio, cau a rhannu defnydd â'r gymuned.

Mae'r gyfundrefn rheoli asedau mewn awdurdodau lleol yn dal i ddatblygu. Nid yw'r cynlluniau rheoli asedau corfforaethol a welwyd hyd yma'n darparu mwy nag ychydig neu ddim gwybodaeth ar sut y mae awdurdodau lleol yn bwriadu rheoli eu hystâd adeiladau ysgolion. Mae fy swyddogion yn ymweld â phob awdurdod i sicrhau cynlluniau rheoli asedau'r gwasanaeth addysg a thrafod cynnydd tuag at y targed o gael yr holl adeiladau ysgol mewn cyflwr da erbyn 2010. Mae nifer o awdurdodau lleol yn diweddaru eu harolygon cyflwr adeiladau, a gafodd eu cwblhau yn y rhan fwyaf o achosion hyd at bum mlynedd yn ôl.

Caiff cyfanswm lefel y buddsoddiad y mae gofyn amdano o hyd ei adolygu yng ngoleuni'r trafodaethau hyn gydag awdurdodau lleol a chynlluniau rheoli asedau ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion esgobaethol.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a oes unrhyw gynlluniau i wahardd bwyd sothach o brydau a pheiriannau gwerthu yn ysgolion Cymru? (WAQ44266)

**Jane Davidson:** Yr wyf yn croesawu'n gynnes y cyhoeddiad gan Ruth Kelly, y Gweinidog Gwladol dros Addysg, ar 28 Medi, ei bod yn bwriadu gwahardd bwyd sothach o brydau ysgol a pheiriannau gwerthu mewn ysgolion yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer ciniawau ysgol y mae deddfwriaeth yn caniatáu gosod safonau ac, felly, bydd gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol ychwanegol i ganiatáu gosod safon a fyddai'n cyfyngu neu'n gwahardd bwydydd a diodydd penodol rhag cael eu darparu mewn adeiladau ysgol. Byddwn yn edrych yn ofalus ar y cynigion a gynhwysir yn yr adroddiad y mae'r Adran Addysg a Sgiliau'n ei gyhoeddi yr wythnos hon, ac mae fy swyddogion yn cwrdd â'r rhai sy'n cyfateb iddynt yr wythnos hon i glywed am y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig ac i weld sut y gellir ei defnyddio i annog bwyta bwyd iach ymhlith pobl ifanc yng Nghymru.

Yng Nghymru, yr ydym eisoes wedi sefydlu grŵp newydd a fydd yn edrych ar sut i wella ansawdd a safonau maeth prydau ysgol, a sicrhau bod gennym ddull cyson a rhesymegol o fwrw ymlaen â gwelliannau mewn bwyd a maeth yn ein hysgolion. Mae'r gweithgor bwyd mewn ysgolion yn cynnwys dietegwyr, prif athrawon, arlwywyr ac arbenigwyr iechyd y cyhoedd ynghyd â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol a'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Prif rôl y grwp hwn yw cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ynglŷn ag i ba raddau y mae cyflwyno safonau maeth llymach gyda'r bwriad o gyflwyno gostyngiad yn y swm o fraster, braster dirlawn, halen a siwgr a gymerir gan ddisgyblion a chynyddu faint o ffrwythau, llysiau a bwydydd eraill sy'n cynnwys maetholion hanfodol a gymerir ganddynt. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y gweithgor bwyd mewn ysgolion ar 20 Medi 2005 gyda'r bwriad o gwblhau ei adolygiad o safonau maeth erbyn diwedd Mawrth 2006.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am beth sy'n cael ei wneud i annog cwmnïau yn Nwyrain De Cymru i gyflogi a hyfforddi mwy o brentisiaid? (WAQ44268)

**Jane Davidson:** Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ELWa raglenni gweithgar ledled Cymru i farchnata a hyrwyddo prentisiaethau. Mae'r rhain yn cynnwys marchnata cyffredinol ac ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a thîm newydd o gynghorwyr datblygu adnoddau dynol y mae ELWa wedi ei recriwtio i drafod eu hanghenion hyfforddi a datblygu sgiliau gyda chyflogwyr.

Yn ychwanegol at hynny, yr ydym yn gweithio'n agos gyda chynghorau sgiliau sector er mwyn dynodi a bodloni'r anghenion sgiliau fesul sector. Er mwyn annog rhagor o gyflogwyr i gymryd rhan mewn prentisiaethau modern mae'r Cynghorau Sgiliau Sector yn gweithio gyda chyflogwyr i adolygu'r fframweithiau cymwysterau a phrentisiaethau sy'n bodoli yn eu sectorau a sicrhau eu bod yn addas i'w pwrpas. Mae gan y Cynghorau Sgiliau Sector hefyd y dasg o osod targedau fesul blwyddyn i gynyddu nifer y cyflogwyr sy'n cymryd rhan mewn prentisiaethau modern erbyn mis Ionawr 2006.

Mae ELWa wedi sefydlu llinell gymorth i gyflogwyr sy'n darparu cyngor a gwybodaeth ar raglenni dysgu a bydd hefyd yn ddolen i Lygad Busnes. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n darparu cefnogaeth i hyrwyddo prentisiaethau modern drwy gystadlaethau megis Dyfarniadau Prentis Modern y Flwyddyn, Dyfarniadau Hyfforddi Cenedlaethol a noddi cystadleuaeth Prentis y Flwyddyn EEF. Mae Gyrfa Cymru hefyd yn darparu cyngor a chanllawiau ar brentisiaethau i ddysgwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y prentisiaid sy'n cael eu hyfforddi ar hyn o bryd yn Ne Ddwyrain Cymru? (WAQ44269)

**Jane Davidson:** Cynyddodd nifer y bobl a oedd yn ymgymryd â hyfforddiant prentisiaid yn rhanbarth De Ddwyrain Cymru ELWa o 17 y cant rhwng 2002 a 2004. Mae'r cyfanswm presennol o 12,180 yn cynrychioli tua 46 y cant o'r holl rai sy'n ymgymryd â hyfforddiant prentisiaid yng Nghymru.

Mae'r tabl isod yn dangos y nifer yn cael hyfforddiant yn Ne Ddwyrain Cymru ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn.

| | Gorffennaf 2002 | Gorffennaf 2003 | Gorffennaf 2004 |
|---|---|---|---|
| Prentisiaethau modern sylfaenol | 5,050 | 4,500 | 5,150 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Prentisiaethau modern | 4,770 | 5,540 | 6,450 |
| Diploma sgiliau modern i oedolion | 580 | 630 | 580 |
| Cyfanswm | 10,400 | 10,670 | 12,180 |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Genedlaethol Hyfforddeion ELWa

**Nick Bourne:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i atal ysgolion pentref bach rhag cau yng Nghymru? (WAQ44319)

**Jane Davidson:** Mater i awdurdodau addysg lleol yw penderfynu ar batrwm priodol y ddarpariaeth ysgolion yn eu hardal. Mater iddynt hwy yw ystyried yn y lle cyntaf a ddylid cadw ysgolion fel unedau unigol, a ddylid sefydlu ysgolion wedi eu ffederaleiddio neu gefnogi trefniadau clystyru, neu a fyddai cau er budd gorau'r dysgwyr. Wrth benderfynu ar gynigion ar gyfer newid sydd wedi denu gwrthwynebiadau, ystyriaethau addysg sydd flaenaf wrth ddod i'm penderfyniad.

**Nick Bourne:** Beth yw cost y polisi brecwast ysgol am ddim yn ôl y ffigurau diweddaraf? (WAQ44320)

**Jane Davidson:** Y gost a amcangyfrifir ar hyn o bryd am weithredu'r cynllun brecwast am ddim dros flwyddyn lawn fyddai £10 miliwn, a hynny wedi'i seilio ar nifer o ragdybiaethau, yn cynnwys bod 80 y cant o ysgolion yn manteisio ar y cynllun a 30 y cant o ddisgyblion yn manteisio arno.

Bydd y gwerthusiad annibynnol gan Sefydliad Cymdeithas, Iechyd a Moeseg Caerdydd yn darparu tystiolaeth am y niferoedd sy'n manteisio ar y cynllun a'r costau i'r dyfodol, ac yn sicrhau bod adnoddau yn cael eu targedu'n effeithiol.

Er y byddem yn annog pob ysgol i gymryd rhan o 2007 ymlaen, o safbwynt gosod y gyllideb mewn ffordd gyfrifol, yr ydym yn gwbl briodol ac yn ddoeth wedi gwneud nifer o ragdybiaethau ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael ar hyn o bryd. Wrth wneud hynny, yr ydym wedi rhagdybio y bydd 80 y cant o ysgolion cynradd yn penderfynu ymuno â'r cynllun ac, o'r rheini, y bydd 30 y cant o'r plant yn penderfynu manteisio arno o'u gwirfodd. Yn amlwg, pe bai'r niferoedd yn uwch—ac ni fyddai dim yn fy mhlesio'n fwy—yna, fel yr wyf wedi dweud yn gyson, byddwn yn dod o hyd i'r adnoddau ychwanegol angenrheidiol y flwyddyn honno i gwrdd â'r costau'n llawn.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar ysgolion sydd wedi'u lleoli gerllaw peilonau trydan? (WAQ44330)

**Jane Davidson:** Mae'r ddeddfwriaeth gynllunio arferol yn berthnasol o ran lleoli ysgolion. Fodd bynnag, mae gweithgor wedi cael ei sefydlu gan yr Adran Iechyd i ystyried gweithredu mewn modd rhagofalus mewn cysylltiad â meysydd electromagnetig, yn cynnwys llinellau a pheilonau trydan. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei chynrychioli ar y grŵp hwnnw, y disgwylir iddo gynghori Llywodraeth y DU yn 2006.

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynyddu'r buddsoddiad mewn addysg uwch? (WAQ44365)

**Jane Davidson:** Yn ôl y ffigurau sydd wedi'u cynnwys yng nghyllideb ddrafft y Cynulliad, rhwng 2000-01 a 2006-07, bydd y ddarpariaeth ar gyfer addysg uwch wedi cynyddu mwy na 35.24 y cant, sef cyfanswm o ryw £102 miliwn.

**Janet Ryder:** A fydd y Gweinidog yn uniongyrchol gyfrifol am y pwyllgor safonau hyfforddiant addysgol ar gyfer gwaith ieuenctid a chymunedol, gwaith datblygu'r gymuned a chwarae Cymru? (WAQ44369)

**Janet Ryder:** A fydd y pwyllgor safonau hyfforddiant addysgol yn ffurfio rhan o'r adran addysg newydd a beth fydd ei statws o fewn y strwythur hwnnw? (WAQ44370)

**Janet Ryder:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu ariannu hyfforddiant datblygu cymunedol yng Nghymru, pwy fydd yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith hwn a faint o arian a ddyrennir ar ei gyfer pan ddaw'r pwyllgor safonau hyfforddiant addysgol dan adain y Cynulliad? (WAQ44371)

**Jane Davidson:** Ar hyn o bryd mae cyfrifoldeb datganoledig wedi cael ei roi i'r pwyllgor safonau hyfforddiant addysgol drwy gytundeb a ddatblygwyd ar y cyd â'r cyd bwyllgor trafod telerau dros Gymru a Lloegr, Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Adran Addysg a Sgiliau a Chyngor Ieuenctid Cymru. Daw'r cytundeb hwn i ben ar 31 Rhagfyr 2005.

Cyfarfu fy swyddogion â chadeirydd y pwyllgor ar 10 Hydref a byddant yn cwrdd â'r pwyllgor ar 2 Tachwedd i drafod cynigion i sicrhau bod gwaith y pwyllgor safonau hyfforddiant addysgol yn parhau o fis Ionawr ymlaen. Bydd angen cynnal trafodaeth hefyd gyda'r cyd bwyllgor trafod telerau i gael ei gytundeb i'r cynnig.

Yr wyf wedi ymrwymo i gefnogi gwaith y pwyllgor i sicrhau bod safonau proffesiynol yn cael eu cynnal o fewn gwaith ieuenctid, gwaith cymunedol a gwaith chwarae.

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o bobl gydag anhwylder sbectrwm awtistig sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg uwch yng Nghymru a pha gyfran sy'n mynychu: a) Prifysgolion b) Colegau Addysg Uwch c) colegau cymunedol, a pha gyfran o'r myfyrwyr hyn sy'n cael lwfans myfyrwyr anabl? (WAQ44377)

**Jane Davidson:** Gallaf ddarparu'r wybodaeth ganlynol: mae'r data diweddaraf oddi wrth yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch yn dangos bod 10 myfyriwr ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig ar gyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru ym mlwyddyn academaidd 2003-04. Mae hyn wedi'i seilio ar hunanasesiad y myfyrwyr. O'r rhain, gwyddys bod pump yn cael lwfans myfyriwr anabl. Mae data ELWa yn dangos nad oedd unrhyw ddysgwyr ag anhwylder yn y sbectrwm awtistig yn dilyn cyrsiau lefel AU mewn sefydliadau addysg bellach yng Nghymru yn 2003-04.

Noder: mae'r data wedi cael ei dalgrynnu i'r pump agosaf.

**Leighton Andrews:** Pa ysgolion cynradd yn Rhondda Cynon Taf sydd ar hyn o bryd yn cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim ac a fydd yn cymryd rhan ynddo o fis Medi 2006? (WAQ44421)

**Jane Davidson:** Mae AALl Rhondda Cynon Taf wedi bod yn cymryd rhan yn y cynllun brecwast am ddim er mis Ebrill 2005. Ar hyn o bryd mae'r ysgolion canlynol yn ardal yr awdurdod yn cynnig brecwast am ddim: Ysgol yr Eos, ysgol iau Glynhafod, ysgol gynradd Hafod, ysgol gynradd Penrhiwceibr, ysgol gynradd gymunedol Penpych, ysgol gynradd Williamstown, ysgol iau Penygraig, ysgol gynradd Pentre, ysgol gynradd Babyddol y Forwyn Fair, a chanolfan gyfeirio Tai.

Mae'r ysgolion canlynol yn RhCT wedi nodi eu bod yn dymuno cymryd rhan yn y cynllun o dymor y gwanwyn 2006: ysgol fabanod Rhiwgarn, ysgol iau Cwmclydach, ysgol iau Cymmer, ac ysgol gynradd Pontygwaith.

Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer rhoi'r cynllun ar waith, mae cyd-drefnydd RhCT yn cysylltu â phob ysgol ar draws yr awdurdod i drafod manylion y cynllun, sy'n cynnwys dyddiadau gweithredu posibl. Y

nod yw ychwanegu ysgolion newydd bob tymor tan fis Ionawr 2007, a bydd y polisi'n cael ei weithredu ym mhob ysgol gynradd a gynhelir sy'n dymuno cymryd rhan.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun Dechrau'n Deg yn y Cymoedd? (WAQ44430)

**Jane Davidson:** Rhaglen newydd sy'n cael ei thargedu'n gryf at blant 0-3 oed yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru, yn cynnwys y Cymoedd, fydd Dechrau'n Deg. Bydd yn adeiladu ar ac yn ategu'r gwaith gwerthfawr sy'n cael ei wneud yn barod o dan thema Cychwyn Cadarn cynllun grant Cymorth. Mae darpariaeth o £46 miliwn ar gyfer Dechrau'n Deg yn y gyllideb ddrafft rhwng 2006 a 2008.

Byddaf yn cyhoeddi dogfen ar gyfer ymgynghori'n gyhoeddus ynghylch Dechrau Deg fis nesaf. Yr ydym yn cynnig y dylai gael ei seilio ar dystiolaeth ryngwladol o'r ymyriadau sy'n cynnal gwell canlyniadau i blant yn y tymor hir. Mae'r ymyriadau sy'n cael eu cynnig yn cynnwys gofal plant safonol, yn rhad ac am ddim, ehangu'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd, a rhaglenni magu plant.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd yn sgil Adroddiad Pennington ar E.coli yn yr Alban gan sefydliadau sy'n gyfrifol yn ei hadran? (WAQ44435) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Cyhoeddodd Grŵp Pennington ei adroddiad llawn i'r achosion o E.coli 0157 yng nghanol yr Alban ym mis Ebrill 1997. Gwnaeth 32 o argymhellion gweithredu, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth y DU ar 11 Mehefin 1997.

Nododd grŵp Pennington mai trawsheintio o gig amrwd i fwydydd parod i'w bwyta drwy arferion trin a hylendid gwael mewn siop cigydd oedd prif achos yr heintiad yng nghanol yr Alban. Mae'r argymhellion yn nodi nifer o fesurau a chynigion rhagofalus, ataliol er mwyn helpu i ddeall yr organeb ac ymdopi â heintiadau a'u rheoli pan fyddant yn digwydd. Mae'r mesurau a gynigiwyd gan y grŵp wedi'u seilio ar system HACCP (dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol), sy'n ceisio lleihau'r potensial i heintio/ trawsheintio â'r organeb ar gamau allweddol yn y gadwyn fwyd o'r fferm i'r ford. Ymysg enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad y grŵp mae:

- Yn hydref 1998, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1.2 miliwn i gyllido cynllun mawr er mwyn cyflwyno HACCP yn gyflymach mewn siopau cigyddion manwerthu annibynnol yng Nghymru. Y nod oedd gwella'r dulliau rheoli hylendid a'r safonau mewn dros 1,100 o siopau cigyddion a diogelu iechyd defnyddwyr,
- ar 31 Rhagfyr 2000, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad reoliadau newydd a'i gwnâi'n ofynnol i'r awdurdodau lleol roi trwydded flynyddol i rai siopau cigyddion manwerthu a siopau manwerthu eraill yng Nghymru, sy'n trin cig amrwd nad yw wedi cael ei lapio, ac yn gwerthu cig amrwd a bwydydd parod i'w bwyta o'r un adeilad, ar yr amod fod gwell amodau hylendid yn cael eu sefydlu,
- ym mis Mai 2002, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad reoliadau a gyflwynodd ofyniad statudol ar i fesurau rheoli seiliedig ar HACCP gael eu gweithredu mewn lladd-dai trwyddedig, gweithfeydd torri cig a storfeydd oer yng Nghymru.

Yn ychwanegol, gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion hefyd am y ddarpariaeth hyfforddiant hylendid bwyd mewn ysgolion. Mae nifer o adnoddau dwyieithog wedi cael eu darparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru er 2000 i'w cynorthwyo i ddysgu diogelwch bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu copi o 'Safe T and the H Squad', a fwriedir ar gyfer plant saith i 11 oed, i bob ysgol gynradd yng Nghymru,
- 'Aliens in our Foods', adnodd sydd wedi ei fwriadu ar gyfer disgyblion 11 i 14 oed – mae copi wedi cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru,

- cafodd adnodd sydd wedi'i seilio ar CD-ROM, 'Teaching Food Safety', ei ddosbarthu i bob ysgol gynradd ac
- ym mis Mai 2005, lansiodd FSA Wales adnodd ar-lein, 'Get Cooking Toolkit', sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi rhestr yn dangos yr holl gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob un o'r 32 argymhelliad, a bydd copi'n cael ei anfon atoch chi ac yn cael ei roi yn Llyfrgell Llywodraeth y Cynulliad.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Glyn Davies:** Pa wybodaeth sydd gan Lywodraeth y Cynulliad o ba mor hir y bydd straen HPAI yn parhau i fod yn heintus mewn adar mudol nad ydynt wedi cael yr afiechyd ond sy'n ei gario? (WAQ33359)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Nid yw rôl y rhai sy'n cludo'r clefyd ond nad oes ganddynt symptomau yn hysbys.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r clybiau ffermwyr ifanc yng Nghymru? (WAQ44321)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu £150,000 i helpu i barhau i gyflogi swyddog datblygu gwledig y clybiau ffermwyr ifanc a £250,000 o dan y gronfa adfer gwledig ar gyfer prosiectau penodol gan y clybiau sirol.

Mae nifer o brosiectau entrepreneuriaeth ar gael drwy Cyswllt Ffermio i helpu ffermwyr ifanc i ddatblygu eu sgiliau busnes ac i ddarparu cyfleoedd i gynhyrchu mathau ychwanegol o incwm. Mae ffermwyr ifanc yn gymwys hefyd i gael cyfraddau uwch o dan y cynlluniau grant gwella ffermydd a grant mentrau fferm. Yn wir, mae dros 1,140 o ffermwyr ifanc wedi cael eu cymeradwyo o dan y cynlluniau hyn gyda chyfanswm grantiau o £16.5 miliwn, yn cynhyrchu buddsoddiad o dros £41 miliwn ar ffermydd.

Yr wyf yn ystyried nifer o opsiynau i helpu pobl ifanc, yn cynnwys tenantiaethau busnes a ffermio cyfran, ac mae fy swyddogion yn ymchwilio i syniadau ar y cyd â chlybiau ffermwyr ifanc, y WDA, Future Farmers of Wales a Lantra.

**Lisa Francis:** Pa bolisïau cynllunio sydd ar waith i ddiogelu'r Parciau Cenedlaethol rhag ceisiadau i godi tyrbinau gwynt? (WAQ44337)

**Carwyn Jones:** Mae 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 8: Cynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy', a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2005, yn eithrio parciau cenedlaethol yn benodol fel safleoedd ar gyfer datblygiadau ffermydd gwynt mawr. Mae'r TAN hefyd yn rhoi canllawiau o ran yr ystyriaethau perthnasol i gynlluniau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, a chynlluniau sy'n seiliedig yn y gymuned.

**Lisa Francis:** Yn dilyn yr ateb i WAQ44122, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i helpu ffermwyr cig eidion Cymru? (WAQ44339)

**Carwyn Jones:** Mae Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales yn gwneud mwy o waith marchnata am gig eidion o Gymru er mwyn lliniaru'r sefyllfa gyfredol lle mae pris cig eidion yn y farchnad yn isel. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch deledu i hysbysebu cig eidion o Gymru sy'n cael ei darlledu tan ganol mis Rhagfyr 2005.

Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o weithgareddau ar y gweill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid i ddylanwadu ar y galw am gig eidion o Gymru yn y sectorau manwerthu, gwasanaethau bwyd ac allforio. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys fy mhresenoldeb yn ffair fwyd Anuga, Cologne ar 9 a 10 Hydref.

**Alun Cairns:** Pa ystyriaethau a roddwyd i les llamidyddion o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ystod y gwaith o ddatblygu safle fferm wynt ar y môr Scarweather Sands? (WAQ44347)

**Carwyn Jones:** Cyngor Cefn Gwlad Cymru yw fy nghynghorydd statudol ar faterion cadwraeth natur. Mae wedi bod yn gweithio gyda swyddogion y Cynulliad, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a'r datblygwyr i sicrhau y bydd amrywiaeth o fesurau lliniaru dibynadwy, y mae modd eu defnyddio unrhyw adeg o'r flwyddyn, yn cael eu rhoi ar waith tra bo'r cynllun hwn yn cael ei ddatblygu. Mae'r cyngor cefn gwlad o'r farn mai'r mesurau hyn fydd yn darparu'r opsiwn gorau ar gyfer amddiffyniad o safon uchel i bob mamal morol ym mae Abertawe.

**Alun Cairns:** A all y Gweinidog gadarnhau bod trwydded Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd yn bodoli ar gyfer yr anemomedrau yn safle fferm wynt ar y môr Scarweather Sands? (WAQ44348)

**Carwyn Jones:** Gallaf gadarnhau bod trwydded Deddf Diogelu Bwyd a'r Amgylchedd wedi cael ei rhoi ar gyfer mast anemomedrau ar safle fferm wynt ar y môr arfaethedig Scarweather Sands ym mis Awst 2002.

**Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y taliadau a wneir o dan y 'cynllun gwaredu hen wartheg' arfaethedig (WAQ44352) [W]

**Carwyn Jones:** Dyma'r taliadau iawndal arfaethedig o dan y cynllun gwaredu hen wartheg: 360 ewro y pen yn y flwyddyn gyntaf; 324 ewro y pen yn yr ail flwyddyn; a 292 ewro y pen yn y drydedd flwyddyn.

Mae rheoliad drafft y Comisiwn Ewropeaidd, sy'n cynnwys y taliadau iawndal arfaethedig, ar y cyfan, yn gynnig da ar gyfer y diwydiant a'r Llywodraeth. Bydd y cynllun tair blynedd arfaethedig hwn, sy'n gynllun gwirfoddol, yn rhoi amser i gynhyrchwyr wneud penderfyniadau busnes cytbwys ynghylch a ydynt am gynnwys eu hanifeiliaid yn y cynllun ai peidio ac i gynllunio sut i gael gwartheg yn eu lle, naill ai o'u buchesi eu hunain neu o ffynonellau eraill. Hefyd, mae'r cyfraddau iawndal yn cyfateb ar gyfartaledd i'r trefniadau presennol ar gyfer y cynllun dros dri deg mis, a bydd hyn yn hwyluso'r broses o newid i'r cynllun diwygiedig. Mae'r tapro yn ôl 10 y cant y flwyddyn yn rhoi cymhelliad i gynhyrchwyr gael gwared ar eu hen wartheg mewn da bryd cyn i'r cynllun ddod i ben.

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amserlen ar gyfer gweithredu Adran 52 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004? (WAQ44376)

**Carwyn Jones:** Bwriadaf ddod â rheoliadau gerbron y Cynulliad y flwyddyn nesaf. Cyn hynny, byddaf yn ymgynghori am ein dull gweithredu arfaethedig fel rhan o'r ymgynghoriad am gwestiwn ehangach gorfodaeth gynllunio, nad yw hysbysiadau atal ond un agwedd ohoni.

**Kirsty Williams:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi eu cymryd, i baratoi ar gyfer y broses o newid i ddigidol, mewn perthynas â'r bobl hynny y bydd angen dysgl lloeren arnynt er mwyn cael unrhyw fath o signal teledu, ond sy'n byw mewn ardal lle mae angen cael caniatâd cynllunio er mwyn gosod dysgl o'r fath? (WAQ44379)

**Carwyn Jones:** Ar ôl ymgynghori â'r cyhoedd, byddaf yn bwrw ymlaen â chynigion i ddiwygio'r ddeddfwriaeth gynllunio yn ymwneud â nifer, maint a lleoliad dysglau lloeren ac antenau eraill yng Nghymru, drwy ymestyn yr hawliau 'datblygu a ganiateir' i gynnwys cyfarpar o'r fath. Bydd hyn yn destun datganiad gwybodaeth sydd i gael ei ryddhau'n fuan.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lefelau ailgylchu yn sir Ddinbych? (WAQ44389)

**Carwyn Jones:** Mae'r ffigurau diweddaraf sydd ar gael am sir Ddinbych, am 2003-04, yn dangos 6.79 o ailgylchu a 6.32 y cant o gompostio, cyfradd gyfun o 13.11 y cant yn ôl mesuriadau dangosyddion perfformiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y dull sy'n cael ei ddefnyddio i ganfod a yw'r awdurdodau'n cydymffurfio â thargedau'r strategaeth wastraff. Mae sir Ddinbych yn gwneud cynnydd cyson yn cynyddu ei lefelau ailgylchu a chompostio.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am reoli gwastraff yn sir Ddinbych? (WAQ44390)

**Carwyn Jones:** Mae Cyngor Sir Ddinbych yn gwneud cynnydd cyson yn cynyddu ei ailgylchu/compostio ac mae'n arallgyfeirio gwastraff bioddiraddadwy o safleoedd tirlenwi o dan y cynllun lwfansau tirlenwi. Mae'r cyngor yn dal i gyflwyno casgliadau ymyl y pafin o ddefnyddiau ailgylchadwy ac mae'n uwchraddio ei safleoedd mwynderau dinesig. Mae hefyd yn ystyried cyflwyno casgliad pob pythefnos o'r gwastraff sy'n weddill.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i leddfu'r broblem ceir gadawedig yng Nghymru? (WAQ44391)

**Carwyn Jones:** Bydd nifer o newidiadau yn digwydd yn y tymor canolig i'w gwneud yn haws delio â cherbydau gadawedig.

- Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol, bydd rheoliadau yn dod i rym ar 25 Tachwedd 2005 i gwtogi'r cyfnodau rhybudd cyn y caiff awdurdodau lleol a'r heddlu symud cerbydau sydd yn y fath gyflwr fel y dylent gael eu dinistrio, o saith diwrnod i 24 awr, ac i waredu cerbydau gadawedig eraill, o 15 diwrnod i saith diwrnod.
- Mae system drwyddedu a chofrestru newydd yr Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau yn anelu at gael gwared â 100,000 y flwyddyn o gerbydau nad ydynt yn cael eu trethu erbyn 2008. Mae pwerau DVLA a roddwyd i'r awdurdodau lleol yn caniatáu iddynt symud cerbydau nad oes ganddynt berchennog/ceidwad cofrestredig oddi ar y briffordd ar unwaith.
- Mae'r cynllun atal tanau bwriadol yn nhri rhanbarth gwasanaeth tân Cymru rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth tân yn annog symud cerbydau gadawedig yn gyflymach.
- Mae cynlluniau amnest i gerbydau nad oes neb eu heisiau, sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol, yn caniatáu i berchennog/ceidwad gwiriadwy cerbyd nad oes neb ei eisiau gael ei symud am gost finimal neu'n ddi-gost.
- O fis Ionawr 2007, bydd gwneuthurwyr ceir yn dod yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth 'cymryd yn ôl yn rhad ac am ddim' ar gyfer cerbydau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes drwy rwydweithiau o gyfleusterau trin awdurdodedig (gyda radiws o ddim mwy na 30 milltir) o dan delerau cyfarwyddeb diwedd bywyd cerbydau yr UE.
- Mae Deddf Cymdogaethau Glân 2005 yn gwneud darpariaeth bellach i symud cerbydau sy'n achosi niwsans, yn cynnwys cerbydau gadawedig, ar unwaith. Mae'r mesurau hyn yn amodol ar is-ddeddfwriaeth gan y Cynulliad ac maent i fod i ddod i rym yn ystod 2006.

**Jenny Randerson:** Beth mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei wneud i annog ailgylchu? (WAQ44392)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog ailgylchu mewn sawl ffordd.

Yr wyf wedi cyhoeddi cymorth ariannol i'r awdurdodau gwerth £93 miliwn am y tair blynedd hyd at 2007-08 i'w helpu i arallgyfeirio gwastraff trefol o safleoedd tirlenwi drwy gynyddu ailgylchu a chompostio. Yr wyf hefyd wedi ariannu'r cynllun ailgylchu strategol a fydd, ynghyd â chyllid gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, yn darparu £15 miliwn o adnoddau ar gyfer cynlluniau cydweithredol rhwng awdurdodau lleol a mudiadau yn y sector cymunedol i hyrwyddo ailgylchu a chompostio.

Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru' yn nodi targedau clir i'r awdurdodau lleol yng Nghymru i gynyddu ailgylchu a chompostio i 25 y cant yn 2006-07 a 40 y cant yn 2009-10. Yn gyfan gwbl, rhagorodd awdurdodau lleol Cymru ar y targed o 15 y cant ar gyfer 2003-04 drwy gyrraedd lefel o 16 y cant drwyddi draw.

Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi datblygu marchnadoedd ar gyfer defnyddiau sydd wedi cael eu hailgylchu drwy'r rhaglen weithredu ar wastraff ac adnoddau ac Ymddiriedolaeth yr Amgylchedd Cymru.
Mae cymorth a chyngor ar leihau gwastraff ac ailgylchu yn cael eu darparu i gyrff sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu £9 miliwn dros dair blynedd i ariannu rhaglen weithredu yn ymwneud â defnyddiau er mwyn helpu busnesau ar draws Cymru i leihau eu gwastraff a chynyddu'r hyn y mae modd ei ailgylchu.

Mae Llywodraeth y Cynulliad hefyd yn ariannu ymgyrch dair blynedd gwerth £1.5 miliwn yn y cyfryngau a lansiwyd ym mis Tachwedd 2004 gan y Cynllun Craff am Wastraff. Ymgyrch yw'r Cynllun Craff am Wastraff a sefydlwyd i hybu lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu gwastraff ymysg pob sector o'r gymuned.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd i gyflawni targedau strategaeth wastraff Cymru? (WAQ44393)

**Carwyn Jones:** Mae 'Yn Gall gyda Gwastraff: Strategaeth Wastraff Genedlaethol Cymru', a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2002 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, wedi ei bwriadu i sicrhau bod Cymru yn cwrdd â'i rhwymedigaethau o dan gyfraith Ewropeaidd a chyfraith y DU ac yn cyflawni ei chyfrifoldebau o dan ddyletswydd datblygu cynaliadwy'r Cynulliad Cenedlaethol drwy sicrhau bod rheoli gwastraff yng Nghymru yn symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff ac oddi wrth waredu mewn safleoedd tirlenwi.

Dengys tystiolaeth y bu gostyngiadau yn faint o wastraff trefol a diwydiannol a masnachol sy'n mynd i safleoedd tirlenwi dros y blynyddoedd diwethaf. Yn ogystal, rhagorodd awdurdodau lleol Cymru gyda'i gilydd ar y targed cyntaf yn y strategaeth wastraff ar gyfer 2003-04 drwy gyrraedd lefel ailgylchu a chompostio o 16 y cant. Y targed nesaf yw 25 y cant yn 2006-07, sy'n cael ei adlewyrchu yn 'Cymru: Gwlad Well'.

**John Griffiths:** A wnaiff y gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella ansawdd dŵr môr ymhellach ar y traethau hynny yng Nghymru sy'n fwyaf poblogaidd ymhlith ymwelwyr? (WAQ44394)

**Carwyn Jones:** Yr wyf yn rhoi blaenoriaeth uchel i amddiffyn a gwella rhagoriaeth ein dyfroedd ymdrochi. Y llynedd, cyfarfu pob un o'r 78 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru sy'n cael eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd â'r safonau gorfodol Ewropeaidd a chyrhaeddodd 86 y cant (67) (y ganran

uchaf erioed) y safonau canllaw llymach. Cyhoeddwyd 38 o draethau Baner Las yng Nghymru yn gynharach eleni—y nifer mwyaf erioed.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fentrau i hyrwyddo cig eidion Cymru yng Nghymru? (WAQ44395)

**Carwyn Jones:** Mae Hybu Cig Cymru/Meat Promotion Wales yn gwneud mwy o waith marchnata am gig eidion o Gymru er mwyn lliniaru'r sefyllfa gyfredol lle mae pris cig eidion yn y farchnad yn isel. Mae hyn yn cynnwys yr ymgyrch deledu i hysbysebu cig eidion o Gymru sydd i gael ei darlledu tan ganol mis Rhagfyr 2005.

Yn ychwanegol at hyn, mae nifer o weithgareddau ar y gweill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid i ddylanwadu ar y galw am gig eidion o Gymru yn y sectorau manwerthu, gwasanaethau bwyd ac allforio. Mae'r gweithgareddau hyn yn cynnwys fy mhresenoldeb yn ffair fwyd Anuga, Cologne ar 9 a 10 Hydref.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y ffermwyr yng Nghymru sydd ag ail swyddi? (WAQ44396)

**Carwyn Jones:** Nid yw'r wybodaeth hon ar gael yn hawdd.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am drafodaethau gydag awdurdodau lleol ynghylch gweithredu TAN 8: Ynni Adnewyddadwy? (WAQ44397)

**Carwyn Jones:** Fel y dywedais wrth ateb WAQ44038, cynhaliwyd seminar ar weithredu TAN 8 ar 26 Medi yn Aberystwyth. Daeth swyddogion o'r awdurdodau cynllunio lleol i'r seminar. Cawsant gyflwyniadau gan Arup Consulting, yr Is-adran Gynllunio, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cadw, Comisiwn Dylunio Cymru a'r Comisiwn Coedwigaeth.

**Leighton Andrews:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i leihau deunydd pacio a gynhyrchir gan archfarchnadoedd yng Nghymru? (WAQ44425)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn helpu i ariannu'r rhaglen weithredu ar wastraff ac adnoddau, sy'n gweithio ar fesurau i leihau gwastraff ar draws marchnad manwerthu'r DU.

Dengys ymchwil a wnaethpwyd gan WRAP fod tua hanner y gwastraff o aelwydydd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi yn y pen draw yn deillio o bryniant mewn archfarchnadoedd manwerthu a siopau cyfleustra. Mae gan archfarchnadoedd a'u cadwyni cyflenwi ddylanwad mawr felly ar yr hyn sy'n cael ei roi yn y bin gartref ac maent mewn sefyllfa dda i helpu i hybu newid gwirioneddol. Mae WRAP yn gweithio gyda phrif gadwyni uwchfarchnadoedd manwerthu'r DU i ddynodi prosiectau i gydweithredu arnynt gyda'r nod pennaf o leihau'r deunydd pacio a'r gwastraff bwyd.

Yr hydref hwn, mae WRAP yn cynnal treialon gan ddefnyddio deunyddiau eraill yn lle bagiau plastig tafladwy archfarchnadoedd ym Mryste a Chaeredin. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn croesawu'r ymchwil hwn, a fydd yn help i ddarparu gwybodaeth ar gyfer datblygiadau i'w dyfodol yn ymwneud â defnyddio bagiau plastig, sydd yn elfen fawr yn neunydd pacio archfarchnadoedd.

Law yn llaw â'r cynllun i fanwerthwyr mae cronfa arloesi er mwyn lleihau gwastraff. Nod y gronfa hon yw darparu cymorth i brosiectau arloesol yn y sector manwerthu a'r cadwyni cyflenwi. Drwy'r gronfa arloesi, bydd WRAP yn caffael prosiectau ymchwil a datblygu i ddylunio, llunio prototeipiau a threialu cynnyrch, deunyddiau pacio, deunyddiau a systemau arloesol.

**Leighton Andrews:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r mudiad bwyd araf? (WAQ44428)

**Carwyn Jones:** Dim. Fodd bynnag, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyfarwyddiaeth Fwyd Awdurdod Datblygu Cymru yn ystyried sut y gallai'r mudiad bwyd araf fod yn berthnasol i'r strategaeth bwyd-amaeth yng Nghymru.

Yr ydym yn ymwybodol fod negeseuon y mudiadau yn atgyfnerthu gwerthoedd y brand gwir flas. Mae'r gyfarwyddiaeth fwyd wedi:

- cefnogi rhai digwyddiadau i ddefnyddwyr drwy'r cyllidebau gwyliau bwyd;
- cynorthwyo cwmnïau bwyd a diod o Gymru i fynd i'r arddangosfa Salone del Gusto a gynhelir am yn ail flwyddyn yn Turin;
- trafod gyda'r mudiad bwyd araf y posibilrwydd o gynnwys cynnyrch megis caws fferm o Gymru, cig eidion o wartheg duon Cymreig, cig oen y glastraeth a moch Cymreig; ac wedi
- helpu i ganfod cynnyrch ar gyfer digwyddiadau yn y DU.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd ynghylch Adroddiad Pennington ar E.coli yn yr Alban gan sefydliadau sy'n atebol i'w adran? (WAQ44434) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Cyhoeddodd Grŵp Pennington ei adroddiad llawn i'r achosion o E.coli 0157 yng nghanol yr Alban ym mis Ebrill 1997. Gwnaeth 32 o argymhellion gweithredu, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth y DU ar 11 Mehefin 1997.

Nododd grŵp Pennington mai trawsheintio o gig amrwd i fwydydd parod i'w bwyta drwy arferion trin a hylendid gwael mewn siop cigydd oedd prif achos yr heintiad yng nghanol yr Alban. Mae'r argymhellion yn nodi nifer o fesurau a chynigion rhagofalus, ataliol er mwyn helpu i ddeall yr organeb ac ymdopi â heintiadau a'u rheoli pan fyddant yn digwydd. Mae'r mesurau a gynigiwyd gan y grŵp wedi'u seilio ar system HACCP (dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol), sy'n ceisio lleihau'r potensial i heintio/ trawsheintio â'r organeb ar gamau allweddol yn y gadwyn fwyd o'r fferm i'r ford. Ymysg enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad y grŵp mae:

- Yn hydref 1998, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1.2 miliwn i gyllido cynllun mawr er mwyn cyflwyno HACCP yn gyflymach mewn siopau cigyddion manwerthu annibynnol yng Nghymru. Y nod oedd gwella'r dulliau rheoli hylendid a'r safonau mewn dros 1,100 o siopau cigyddion a diogelu iechyd defnyddwyr,
- ar 31 Rhagfyr 2000, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad reoliadau newydd a'i gwnâi'n ofynnol i'r awdurdodau lleol roi trwydded flynyddol i rai siopau cigyddion manwerthu a siopau manwerthu eraill yng Nghymru, sy'n trin cig amrwd nad yw wedi cael ei lapio, ac yn gwerthu cig amrwd a bwydydd parod i'w bwyta o'r un adeilad, ar yr amod fod gwell amodau hylendid yn cael eu sefydlu,
- ym mis Mai 2002, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad reoliadau a gyflwynodd ofyniad statudol ar i fesurau rheoli seiliedig ar HACCP gael eu gweithredu mewn lladd-dai trwyddedig, gweithfeydd torri cig a storfeydd oer yng Nghymru.

Yn ychwanegol, gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion hefyd am y ddarpariaeth hyfforddiant hylendid bwyd mewn ysgolion. Mae nifer o adnoddau dwyieithog wedi cael eu darparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru er 2000 i'w cynorthwyo i ddysgu diogelwch bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu copi o 'Safe T and the H Squad', a fwriedir ar gyfer plant saith i 11 oed, i bob ysgol gynradd yng Nghymru,

- ‘Aliens in our Foods’, adnodd sydd wedi ei fwriadu ar gyfer disgyblion 11 i 14 oed – mae copi wedi cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru,
- cafodd adnodd sydd wedi’i seilio ar CD-ROM, ‘Teaching Food Safety’, ei ddosbarthu i bob ysgol gynradd ac
- ym mis Mai 2005, lansiodd FSA Wales adnodd ar-lein, ‘Get Cooking Toolkit’, sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol.

Mae’r Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi rhestr yn dangos yr holl gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob un o’r 32 argymhelliad, a bydd copi’n cael ei anfon atoch chi ac yn cael ei roi yn Llyfrgell Llywodraeth y Cynulliad.

**Glyn Davies:** Pa gamau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu cymryd i fonitro lledaeniad y Ffliw Adar ar draws Asia ac Ewrop? (WAQ44444)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cysylltiad agos â DEFRA, sy’n cael gwybodaeth am y sefyllfa o ran ffliw adar fel y mae’n datblygu ac yn effeithio ar dde-ddwyrain Asia a dwyrain Ewrop. Mae’r swyddogion yn mynychu cyfarfodydd grŵp polisi gyda DEFRA a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill, sy’n ystyried goblygiadau’r wybodaeth sy’n dod i law a’r peryglon cysylltiol.

**Glyn Davies:** Pa fesurau annibynnol a gymerir gan Lywodraeth y Cynulliad i fonitro symudiad adar mudol a lledaeniad haint yn sgil hynny? (WAQ44445)

**Carwyn Jones:** Mae Cymru yn rhan o’r cynllun goruchwylio adar gwyllt ar draws Prydain Fawr sy’n cael ei drefnu gan DEFRA mewn ymgynghorid â Llywodraeth Cynulliad Cymru a Gweithrediaeth yr Alban. Mae’r goruchwylio yn cael ei drefnu gan gynnwys cyrff adaregol, yn cynnwys y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir a’r Asiantaeth Labordai Milfeddygol. Mae’r goruchwylio ar adar gwyllt yn ychwanegol at yr arolwg blynyddol a gynhelir ar safleoedd lle cedwir dofednod domestig.

Mae tair elfen i’r goruchwylio:

1. profi samplau a gymerir o adar byw ar safleoedd ar draws Prydain Fawr;
2. profi samplau a gymerir o adar sydd wedi cael eu saethu ar safleoedd ar draws Prydain Fawr, yn cynnwys Cymru ar Lannau Dyfrdwy a Phorth Tywyn;
3. cynnal ymgyrch gyhoeddusrwydd, a ddechreuodd ar 11 Hydref, yn ceisio cydweithrediad y cyhoedd yn rhoi gwybod i’r Asiantaeth Labordai Milfeddygol am achosion lle gwelir amryw o adar gwyllt wedi marw.

**Glyn Davies:** Pa fesurau newydd y mae Llywodraeth y Cynulliad yn eu rhoi ar waith i fonitro dyfodiad adar mudol mewn mannau yng Nghymru a heintusrwydd yr adar hyn? (WAQ44446)

**Carwyn Jones:** Byddai’n amhriodol i’r Cynulliad weithredu’n annibynnol mewn ymateb i’r risg o ffliw adar yn y DU. Mae swyddogion y Cynulliad yn gweithio’n agos gyda DEFRA a’r gweinyddiaethau datganoledig eraill i ddatblygu’r rhaglen goruchwylio adar gwyllt sy’n cael ei rhoi ar waith eleni.

**Glyn Davies:** Pa wybodaeth sydd gan Lywodraeth y Cynulliad am yr amodau sy’n peri i adar ledaenu’r feirws ffliw adar a pha mor hir y byddant yn parhau i fod yn heintus? (WAQ44447)

**Carwyn Jones:** Gwyddom fod feirysau yn gallu lluosi’n sylweddol yng ngholuddion adar yr effeithir arnynt yn gyffredinol gan ffliw adar, ac yn eu hysgarthion. Fodd bynnag, mae lluosi ac ysgarthu o’r fath yn debygol o amrywio yn dibynnu ar yr hil o’r clefyd. Mae rhywfaint o drafod ynghylch pa mor hir y mae

adar yn gollwng y feirws; mae rhai awdurdodau o'r farn y bydd adar yn colli'r dydd ac yn marw'n gyflym, ac na fydd y feirws yn cael ei gynhyrchu mwyach felly. Mae rhywfaint o ansicrwydd ynghylch adar nad ydynt yn colli'r dydd a pha un a ydynt yn parhau i ysgarthu'r firws. Mae ansicrwydd hefyd pa un a all adar marw barhau i fod yn ffynhonnell o'r firws. Mae ymchwil ar y gweill i hyn ac i agweddau eraill o'r clefyd.

**Glyn Davies:** Pa wybodaeth sydd gan Lywodraeth y Cynulliad am ba mor hir y mae'r feirws ffliw adar yn parhau i fod yn heintus yn ysgarthion adar mudol? (WAQ44448)

**Carwyn Jones:** Pan gaiff y feirws ei ollwng mewn ysgarthion gall barhau i fod yn hyfyw am gyfnodau hir o amser ond mae hyn yn dibynnu ar ffactorau megis yr hil o'r clefyd, y tywydd, asidrwydd a gwres.

**Glyn Davies:** Pa wybodaeth sydd gan Lywodraeth y Cynulliad am sut y mae'r tywydd yn effeithio ar oroesiad haint ffliw'r adar. (WAQ44449)

**Carwyn Jones:** Y ffactor mwyaf arwyddocaol o ran effaith y tywydd ar oroesiad y feirws yw tymheredd. Mae'n goroesi'n well mewn tymheredd is.

**Glyn Davies:** O dan ba amodau sy'n gysylltiedig â Ffliw'r Adar y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gorchymyn cadw pob dofednod dan do yn ystod y dydd? (WAQ44450)

**Carwyn Jones:** Byddai gan Lywodraeth y Cynulliad y pwerau angenrheidiol i fynnu bod dofednod yn cael eu cadw dan do pe ceid achosion o'r clefyd yng Nghymru. Byddai mesurau amddiffyn a goruchwylio yn cael eu sefydlu o amgylch y safleoedd yr effeithid arnynt, a fyddai'n galluogi'r Cynulliad i fynnu bod mesurau rheoli megis cadw dofednod dan do dros dro yn cael eu gweithredu. Fodd bynnag, byddai gweithredu o'r fath yn ddibynnol ar gyngor milfeddygol.

**Glyn Davies:** O dan ba ddeddfwriaeth y byddai Llywodraeth y Cynulliad yn gorchymyn cadw pob dofednod dan do yn ystod y dydd? (WAQ44451)

**Carwyn Jones:** Byddai Gorchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 yn cael ei ddefnyddio i orchymyn cadw dofednod dan do yn ystod y dydd dros dro. Fodd bynnag, byddai'n ofynnol o dan y trefniadau gorfodi i'r safle fod mewn parth amddiffyn neu oruchwylio pe byddid yn amau bod adar ar y safle yn dioddef o'r clefyd.

**Glyn Davies:** Pa fesurau penodol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynghori'r diwydiant dofednod i'w cymryd i wella bioddiogelwch o ganlyniad i'r bygythiad yn sgil y ffliw adar? (WAQ44452)

**Carwyn Jones:** Ar 31 Awst, ysgrifennodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru at randdeiliaid yng Nghymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y ffliw adar gan amgáu'r canllawiau bioddiogelwch canlynol.

Mae gwell bioddiogelwch yn rhoi:

**tawelwch meddwl, adar iachach a busnes mwy dichonadwy.**

Mae angen i bawb sy'n cadw dofednod fod yn ymwybodol o'r angen am fioddiogelwch llym a hylendid ar eu safle:

Manteision:

- mae'n help i gadw clefydau egsotig megis clefyd Newcastle a ffliw adar draw;
- mae'n lleihau'r risg y gallai milheintiau fel salmonela ennill eu plwyf;
- mae'n cyfyngu ar glefydau rhag iddynt ymledu ac yn diogelu eich cymdogion, iechyd y cyhoedd a chefn gwlad;
- mae'n gwella iechyd yr adar yn gyffredinol;
- mae'n lleihau'r costau trin clefydau; ac
- mae'n lleihau colledion a gallai wneud y fferm yn fwy proffidiol.

Sut mae'r clefyd yn ymledu:

- symud dofednod, pobl, cerbydau a chyfarpar rhwng ffermydd ac o fewn ffermydd;
- cyflwyno adar sydd â statws iechyd isel, neu statws iechyd nad yw'n hysbys;
- cysylltiad â dofednod cymdogion;
- defnyddio cyfarpar fferm a cherbydau sy'n cael eu rhannu, nad ydynt wedi cael eu glanhau a'u diheintio'n effeithiol;
- cysylltiad â fermin ac adar gwyllt;
- adar yn yfed o ffynonellau dŵr sydd wedi cael eu heintio;
- adar yn bwyta porthiant sydd wedi cael ei heintio; a
- glanhau a diheintio cerbydau, siediau, cafnau bwydo a chyfarpar arall yn anfoddhaol.

Sut mae Atal Clefydau—Cadwch Eich Fferm yn Lân!

- Peidiwch â dod â haint i'ch fferm, na'i ledaenu o amgylch eich fferm, ar eich dillad, eich esgidiau na'ch dwylo. Rhaid gwisgo oferôls ac esgidiau glân wrth fynd i ffermydd dofednod. Dylai dillad ac esgidiau gwarchodol gael eu tynnu ac un ai eu glanhau a'u diheintio, eu golchi neu eu gwaredu ar ôl iddynt gael eu defnyddio.
- Cyfyngu ar a rheoli mynediad at heidiau dofednod yn llym. Os yw'n bosibl dylai'r safle gael ei ffensio a dylid rheoli'r man mynediad. Dylid cyfyngu ar ymwelwyr a'u cerbydau a chyn belled ag sy'n bosibl eu cadw draw oddi wrth adeiladau a thiroedd pori dofednod.
- Bod ag offer golchi dan wasgedd, brwshys, pibellau, dŵr a diheintydd sydd wedi ei gymeradwyo ar gael. Gwneud yn siŵr eu bod yn cael eu defnyddio gan ymwelwyr i lanhau cerbydau, cyfarpar ac esgidiau.
- Cadw llwybrau mynediad y fferm, mannau parcio, buarthau, ardaloedd o amgylch adeiladau a mannau storio yn lân a thaclus a'u cynnal a'u cadw'n dda. Mae hyn yn help i osgoi denu adar ac anifeiliaid gwyllt i'r safle ac i mewn i adeiladau a storfeydd.
- Gall adar gwyllt gario clefydau dofednod. Lleihau'r cysylltiad rhwng dofednod ac adar gwyllt. Atal dŵr llonydd rhag cronni a chlirio porthiant sydd wedi gollwng ar lawr a allai ddenu adar gwyllt. Cynnal a chadw adeiladau i wneud yn siŵr nad oes adar gwyllt yn nythu nac yn clwydo ynddynt.
- Cadw adar gwyllt, cŵn, cathod, cnofilod neu fywyd gwyllt arall allan o adeiladau dofednod a storfeydd porthiant.
- Sefydlu system weithredol i reoli cnofilod a phlâu. Bod ar eich gwyliadwriaeth rhag tystiolaeth o fermin. Monitro gweithgarwch fermin drwy osod abwyd a thrapio.
- Darparu dŵr yfer glân yn unig ar gyfer adar. Rhaid rhedeg dŵr drwy bibellau dŵr a phowlenni yfed a'u glanhau yn rheolaidd. Gydag 'adar rhydd' dylech gyfyngu ar fynediad adar gwyllt at ffynonellau posibl o ddŵr llonydd.
- Rhaid i finiau porthiant, hopranau a chyfarpar bwydo gael eu glanhau a'u cynnal a'u cadw'n rheolaidd. Rhaid i seilos a chynwysyddion porthiant gael eu selio i atal anifeiliaid ac adar gwyllt rhag halogi'r porthiant.
- Dim ond o felin neu oddi wrth gyflenwr sy'n gweithredu yn unol â chodau ymarfer perthnasol UKASTA, a fydd yn dangos canlyniadau profion salmonela dim ond ichi ofyn am hynny, y dylech gymryd porthiant.
- Gall wyau sydd wedi eu difrodi, adar marw, sbwriel a thail gario clefydau. Dylech eu gwaredu yn ddiymdroi ac yn briodol.

- Dylech lanhau a diheintio cerbydau ar ôl pob siwrnai. Os yw'n bosibl, peidiwch â defnyddio'r un cerbydau i gludo adar, porthiant, tail neu fathau eraill o wastraff.
- Dylech lanhau a diheintio pob cawell, cynhwysydd a chyfarpar arall cyn ac ar ôl eu defnyddio. Peidiwch â symud unrhyw gyfarpar i wahanol adeiladau dofednod heb ei lanhau a'i ddiheintio yn gyntaf. Mae hyn yn wir hefyd am gyfarpar chwistrellu a dosio.
- Adeg diboblogi ar ddiwedd cylch, glanhewch yr adeilad a'r holl gyfarpar yn drylwyr, gan gynnwys y dwythellau, y draeniau a'r gwyntyllau. Dylech gael gwared ag unrhyw borthiant dros ben, adar marw a sbwriel. Diheintiwch y safle a'r holl gyfarpar ac ewch drwy'r drefn rheoli cnofilod a phlâu eraill. Dylai cyfarpar glanhau a dillad gwarchodol hefyd gael eu glanhau a'u diheintio.

Prynu Stoc Newydd—Dylech wybod statws iechyd yr adar yr ydych yn eu prynu neu'n eu symud bob amser:

- dylai stoc sy'n dod i mewn gael ei harwahanu'n briodol oddi wrth weddill yr haid—trafodwch hyn gyda'ch milfeddyg a chytunwch ar raglen brofi a monitro;
- dim ond mewn cyfleusterau y gwyddoch eu bod wedi cael eu glanhau a'u diheintio y dylech roi stoc newydd;
- defnyddiwch gyfarpar a staff ar wahân neu gwnewch yn siŵr eich bod yn trin y stoc sy'n cael ei harwahanu yn olaf. Peidiwch byth â mynd yn ôl i mewn i adeiladau eich prif haid ar ôl delio â stoc sy'n cael ei harwahanu nes byddwch wedi ymolchi ac wedi newid i oferôls ac esgidiau glân;
- cadwch yr adeiladau arwahanu cyn agosed â phosibl at fynedfa'r fferm a chyn belled â phosibl oddi wrth yr adeiladau dofednod eraill. Gwnewch yn siŵr fod yr adeiladau mewn cyflwr da a'u bod yn effeithiol i atal fermin rhag mynd i mewn a lledaenu unrhyw glefydau.

**Glyn Davies:** Pa gyfarwyddiadau y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi eu rhoi i'w staff ei hun a staff asiantaethau i leihau pob ymweliad ac eithrio'r rhai mwyaf hanfodol â ffermydd dofednod? (WAQ44453)

**Carwyn Jones:** Yn niffyg clefyd yn y wlad hon nid oes unrhyw gyfarwyddiadau wedi cael eu rhoi i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad ar hyn o bryd ond mae hyn yn cael ei adolygu. Mae'n bwysig fodd bynnag fod safleoedd dofednod yn sefydlu mesurau bioddiogelwch da i'w hamddiffyn rhag clefydau yn unol â'r cyngor ar fioddiogelwch a ddarparwyd i randdeiliaid ac sydd ar gael ar wefan y Cynulliad.

**Glyn Davies:** Pa adnoddau a staff ychwanegol y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'u neilltuo ar gyfer gwasanaethau maes a labordai er mwyn sicrhau bod profion cyflym a digonol ar gyfer heintusrwydd ffliw'r adar? (WAQ44454)

**Carwyn Jones:** Cyfrifoldeb yr Asiantaeth Labordai Milfeddygol yw profi samplau am ffliw adar a phob clefyd anifeiliaid hysbysadwy arall. Byddai unrhyw samplau y byddai gofyn eu cymryd yn cael eu cymryd ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru gan y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol a byddid yn ychwanegu at adnoddau a staff y gwasanaeth pe ceid heintiad.

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i gynyddu adnoddau o gronfeydd wrth gefn, os digwydd i'r llwyth gwaith ar staff a labordai gynyddu'n sylweddol o ganlyniad i achosion o Ffliw'r Adar? (WAQ44455)

**Carwyn Jones:** Mae'r Cynulliad yn rhan o'r cytundeb drwy'r DU gyda'r Asiantaeth Labordai Milfeddygol y bydd yn cynyddu ei gapasiti profi serolegol am glefyd hysbysadwy ar sail wrth gefn hyd at uchafswm o 120,000 yr wythnos mewn tri labordy.

Bydd arolygwyr milfeddygol wrth gefn lleol yn cael eu hyfforddi yn y swyddfeydd rhanbarthol iechyd anifeiliaid lleol a byddant ar gael i ymateb i'r alwad argyfwng. Yn 2004, llofnodwyd cytundeb iechyd

anifeiliaid rhyngwladol argyfwng wrth gefn gydag Iwerddon, UDA, Canada, Awstralia, a Seland Newydd i ddarparu milfeddygon a staff technegol pe ceid achosion o'r clefyd.

**Glyn Davies:** O gofio effaith bosibl epidemig o HPAI ymysg haid adar Prydain, pa gamau y mae'r Llywodraeth wedi eu cymryd i ddiogelu statws 'adar rhydd' cynhyrchwyr y mae'n rhaid iddynt gadw eu heidiau dan do? (WAQ44456)

**Carwyn Jones:** Os ceir achosion o'r ffliw adar a bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn defnyddio ei phwerau o dan Orchymyn Clefydau Dofednod (Cymru) 2003 i fynnu bod adar yn cael eu cadw dan do dros dro mewn parthau amddiffyn a goruchwylio yng nghyffiniau safleoedd sydd wedi eu heintio, ni ddylai'r statws 'aderyn rhydd' gael ei arddel ar gig dofednod os yw'r aderyn wedi byw mwy na hanner ei oes dan do.

Lle bo adar yn cael eu marchnata fel 'adar buarth traddodiadol' neu 'adar buarth—rhyddid llwyr' rhaid eu bod yn gallu mynd allan drwy gydol y dydd i libart awyr agored o oedran penodedig er mwyn iddynt gael eu marchnata gan ddefnyddio'r termau hyn.

Mae gallu cynhyrchwyr wyau 'buarth' i barhau i farchnata eu hwyau fel rhai buarth yn ddibynnol ar iddynt geisio eu cyngor cyfreithiol eu hunain ar sail eu hamgylchiadau neilltuol. Er enghraifft, er y byddai modd efallai i wyau 'buarth' barhau i gael eu marchnata felly o dan reoliadau marchnata wyau CE, efallai fod manwerthwyr yn gwneud datganiadau hyrwyddo sy'n mynd ymhellach na'r rheoliadau, ac efallai y gallai ystyriaethau yn ymwneud â disgrifiadau masnachu cyffredinol godi.

**Glyn Davies:** Pa asesiad y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i wneud o oblygiadau rheoli a lles cadw heidiau rhydd dan do yn ystod y dydd am nifer o wythnosau? (WAQ44457)

**Carwyn Jones:** Gallai adar sydd wedi arfer bod yn rhydd ac sydd wedi yn cael eu cadw dan do 24 awr y dydd am gyfnodau hir wynebu problemau lles megis cyfyngu ar eu mynediad at fwyd a dŵr, awyru annigonol a phroblemau ymddygiad megis canibaliaeth a phigo plu. Bydd cyfyngiadau ar symud ieir dodwy a chywion brwylio yn cael effaith andwyol o ran lles nid yn unig yn uniongyrchol ar yr adar dan sylw ond ar y gadwyn gynhyrchu drwyddi draw.

**Glyn Davies:** Pa fesurau y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu eu cymryd i liniaru effeithiau andwyol cadw heidiau rhydd dan do? (WAQ44458)

**Carwyn Jones:** Mae'r rhai sy'n cadw dofednod yn gyfrifol am les eu hadar yn ystod heintiadau a chanlyniadau'r heintiadau hynny. Y cyngor fyddai'n cael ei roi i'r rhai sy'n cadw dofednod yw y gallent, er mwyn rheoli unrhyw ganlyniadau lles posibl, gynnwys rhanwahanu'r haid drwy symud tua thraean yr adar i ysgubor neu adeilad ar wahân, adeiladu ferandas dros dro o amgylch yr adeiladau, darparu awyriad ychwanegol a gwneud newidiadau i'r gyfundrefn reoli.

**Helen Mary Jones:** Ymhellach i ateb y Gweinidog i WAQ38745 a WAQ43077; a wnaiff fanylu ar yr arian wedi'i fodiwleiddio a ddylai fod wedi cael ei wario hyd yma, a nodi faint a wariwyd? (WAQ44460)

**Carwyn Jones:** Erbyn hyn mae'r Comisiwn yn mynnu bod derbyniadau modiwleiddio yn cael eu gwario erbyn diwedd y bedwaredd flwyddyn EAGGF ar ôl y flwyddyn y cynhyrchwyd y derbyniadau ynddi.

Cafodd y swm o £724,766.66 ei gasglu fel arian wedi'i fodiwleiddio yn ystod blwyddyn 2000-01 EAGGF a chafodd ei wario'n llawn drwy Tir Gofal ym mlwyddyn 2003-04 EAGGF.

## Cwestiynau i’r Gweinidog Cyllid

**Laura Anne Jones:** Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau yr ymgynghorir â phwyllgorau craffu awdurdodau lleol ar faterion pwysig cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron cabinet y cyngor? (WAQ44331)

**Laura Anne Jones:** Beth y mae’r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau y caiff pawb yr ymgynghorir â hwy eu trin yn gyfartal gan awdurdodau lleol mewn perthynas ag adroddiadau craffu cyn iddynt gael eu cyflwyno gerbron cabinet y cyngor? (WAQ44332)

**Laura Anne Jones:** Pa ganllawiau a gwaith monitro arfer gorau a gyflwynwch er mwyn sicrhau na chaiff sylwadau aelodau a etholwyd yn lleol eu hanwybyddu mewn adroddiadau craffu a pha weithdrefnau sydd ar waith i ymdrin â chwynion am y materion hyn? (WAQ44333)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Fel y Gweinidog dros lywodraeth leol, fy nghyfrifoldeb i yw rhoi canllawiau ac arweiniad i awdurdodau lleol ar strwythur eu trefniadau monitro o fewn gofynion y gyfraith. Mater i’r awdurdodau lleol eu hunain yw gweithrediad y trefniadau craffu o ddydd i ddydd. Mae Adran 21 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn rhoi i bwyllgorau trosolwg a chraffu, sy’n gweithio o dan drefniadau gweithredol, bwerau eang eu cwmpas i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wneir gan yr awdurdod, yn cynnwys ei weithrediaeth, ac i lunio adroddiadau ac argymhellion yn cynnwys y dylai’r penderfyniad gael ei ailystyried gan y person a’i gwnaeth. Dylai fod gan yr awdurdodau lleol drefniadau sy’n galluogi unrhyw aelod o bwyllgor, neu is-bwyllgor, trosolwg a chraffu i sicrhau bod unrhyw fater sy’n berthnasol i swyddogaethau’r pwyllgor yn cael ei roi ar yr agenda a’i drafod. Gallai pwyllgorau, neu is-bwyllgorau, craffu hefyd fynnu bod aelodau o’r weithrediaeth, a swyddogion o’r awdurdod, yn ymddangos ger eu bron i ateb cwestiynau. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau craffu, rhaid i’r awdurdodau lleol roi sylw i’r canllawiau statudol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ynghylch rhoi trefniadau gweithredol a threfniadau amgen ar waith, sy’n cynnwys nifer o adrannau ar sut mae’r drefn graffu yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys yr angen i bob awdurdod sicrhau bod gan ei bwyllgorau trosolwg a chraffu raglen waith wedi ei chynllunio sy’n ystyried rhaglen waith yr awdurdod drwyddo draw, yn cynnwys rhaglen waith y weithrediaeth. Dylid rhoi gwybod i swyddog graffu a swyddog monitro’r awdurdod dan sylw am bryderon am y ffordd y mae’r drefn graffu yn gweithio ar lefel leol.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amser y mae’n ei gymryd i Swyddfeydd Prisio ymdrin ag apeliadau sy’n ymwneud ag ailfandio’r Dreth Gyngor? (WAQ44373)

**Sue Essex:** Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn disgwyl y bydd pob apêl a ddaeth i law erbyn 30 Medi 2005 wedi cael ei chlirio erbyn 31 Mawrth 2006.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog roi’r newyddion diweddaraf am wella caffael yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ44381)

**Sue Essex:** Dros y 12 mis diwethaf, mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol y Cynulliad wedi rhoi nifer o newidiadau ar waith er mwyn hybu gwelliannau caffael ar draws y Cynulliad. Mae’r rhain yn cynnwys:

- rheolwyr cleientiaid caffael yn gweithio gyda phenaethiaid adrannau ac unedau busnes i ddatblygu strategaethau caffael tair blynedd unigol, a fydd wedyn yn cyd-fynd â strategaeth gaffael gyffredinol y Cynulliad i gefnogi blaenoriaethau’r Gweinidogion ac i’w gwneud yn bosibl cynllunio’n well;
- cymorth caffael yn cael ei ddarparu gan y Cynulliad drwy dimau sydd wedi cael eu neilltuo i grwpiau portffolio;
- datblygu cyfres o gyrsiau caffael ar gyfer staff ar bob gradd;
- gweithdrefnau caffael yn cael eu hadolygu a’u diwygio yn rheolaidd. Ym mis Ionawr 2005 cafodd holl drothwyon caffael y Cynulliad eu cynyddu yn dilyn asesiad risg a chymhariaeth â throthwyon adrannau eraill y Llywodraeth;

- defnyddio adolygiadau Gateway Swyddfa Masnach y Llywodraeth ar bob prosiect gwerth uchel/risg uchel. Mae tri adolygiad yn cael eu cynllunio ar hyn o bryd;
- y Cynulliad yw'r corff cyntaf yn y sector cyhoeddus i ofyn am grwpio ceir llogi yn ôl allyriannau carbon deuocsid, gan ganiatáu i'r staff logi cerbydau heb lawer o allyriannau. Daw hyn i rym o fis Ionawr 2006;
- cynyddu'r defnydd o bapur wedi'i ailgylchu o 5 y cant i oddeutu 50 y cant. Hefyd, o fis Ionawr 2006, bydd y swmp gontract am bapur dyblygu yn cynnwys mwy o amrywiaeth o bapur wedi'i ailgylchu, gan ein galluogi i ddefnyddio papur wedi'i ailgylchu lle bynnag y mae hynny'n ymarferol.

Mae strategaeth gaffael y Cynulliad wedi cyrraedd y lefel efydd yn ddiweddar yn dilyn archwiliad Gwerth Cymru. Mae'r Gwasanaethau Caffael Corfforaethol wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer yr argymhellion, a ddylai, pan gânt eu gweithredu, symud y sefydliad yn ei flaen yn sicr hyd at y lefel arian.

Mae'r gwasanaethau caffael hefyd wedi penodi rheolwr gwasanaethau cwsmeriaid sy'n gyfrifol am weithio gyda chwsmeriaid mewnol ac allanol i asesu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y timau caffael.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol? (WAQ44382)

**Sue Essex:** Mae cyllideb y prif grŵp gwariant iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn £4.82 biliwn yn y flwyddyn ariannol hon. Cynyddodd y ddarpariaeth £286 miliwn o'i chymharu â chyllideb 2004-05, sy'n cynrychioli twf o 6.3 y cant.

Mae'r cynigion cyllideb drafft a gyhoeddwyd gennyf ar 27 Medi yn nodi cynnydd yn y gyllideb ar gyfer 2006-07 a 2007-08. Y codiadau a gynigiwyd gennyf oedd £108.9 miliwn yn 2006-07 a £187 miliwn yn 2007-08. Byddai'r cyllid ychwanegol hwn yn rhoi codiadau canrannol o 8.2 y cant a 6.9 y cant yn y naill flwyddyn a'r llall.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y bu'n rhaid addasu cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn talu costau ychwanegol gwasanaethau a brynwyd na ellid bod wedi'u rhagweld? (WAQ44383)

**Sue Essex:** Wrth i bwysau gwario gael eu nodi yn ystod y flwyddyn, yr ydym yn addasu'r cyllidebau drwy'r broses rheoli o fewn blwyddyn, a amlinellwyd yn Rheol Sefydlog Rhif 21. Yr ydym hefyd yn ymateb i newidiadau disgwyliedig yn y gofynion ariannol drwy broses cynllunio'r gyllideb fel y'i hamlinellir yn y Rheolau Sefydlog.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith y bleidlais yn y Cyfarfod Llawn ar 4/10/05 ar ddyraniad y gyllideb ar gyfer y portffolio Addysg a Dysgu Gydol Oes? (WAQ44384)

**Sue Essex:** Mae'r gyllideb ddrafft yn nodi'r cynlluniau gwariant sy'n ofynnol i wireddu ymrwymiadau strategol y Llywodraeth. Bydd y cynlluniau hynny, yn cynnwys y dyraniadau yn y portffolio addysg a dysgu gydol oes, yn cael eu trafod yn awr gan y pwyllgorau a byddaf yn ystyried barn Cyfarfod Llawn a'r pwyllgorau cyn adolygu'r gyllideb mewn unrhyw ffordd.

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effaith cyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tair blynedd nesaf ar gyllideb gyffredinol y portffolio datblygu economaidd a thrafnidiaeth? (WAQ44385)

**Sue Essex:** Yr oedd y cynigion yn y gyllideb ddrafft a gyhoeddais ar 27 Medi yn golygu cynnydd o £23 miliwn yn y gyllideb datblygu economaidd a thrafnidiaeth o 2005-06 i 2007-08. Rhwng 1999-2000 a 2007-08, bydd y ddarpariaeth ar gyfer datblygu economaidd a thrafnidiaeth wedi cynyddu £673 miliwn.

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllideb Cynulliad Cenedlaethol Cymru am y tair blynedd nesaf? (WAQ44386)

**Sue Essex:** Bydd y terfyn gwariant adrannol ar gyllideb y Cynulliad yn cynyddu £2.7 biliwn dros y tair blynedd nesaf. Mae'r gyllideb yn £11.4 biliwn yn 2005-06 ac mae'n codi i £14.1 biliwn yn 2007-08. Mae hyn yn gynnydd drwyddo draw o 23.7 y cant.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi'r newyddion diweddaraf i ni ar ei pholisïau ar gyfer hyrwyddo effeithlonrwydd ariannol ar draws y portffolios Gweinidogol? (WAQ44387)

**Sue Essex:** Yr wyf wedi ymrwymo i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn y ffordd y mae ein hadnoddau yn cael eu defnyddio—o'r camau cynllunio cynharaf hyd at y cyflenwi terfynol. Sicrhaodd ein hadolygiad o wariant y llynedd fod y cyllidebau yn cyd-fynd â'n hamcanion strategol. Rhoddodd cylch y gyllideb eleni brawf pellach ar y dyraniadau hynny a dim ond i'r meysydd hynny lle'r ydym wedi ein bodloni y bydd yn arwain at y cynnyrch mwyaf posibl y rhoddwyd arian newydd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau clywedeg yng ngorllewin Cymru? (WAQ44160) [W]

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Mae gwasanaeth awdioleg Ceredigion yn cael ei ddarparu fel gwasanaeth allgymorth gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Gaerfyrddin. Er y bu rhai achosion lle bu'n rhaid i bobl aros yn hwy na 12 mis yn yr ardal, bydd y meddyg ymgynghorol sy'n darparu'r gwasanaeth allgymorth yn cynnal clinigau ychwanegol am weddill y flwyddyn. Yn ogystal, mae gwasanaeth atgyfeirio uniongyrchol wrthi'n cael ei sefydlu ar gyfer cleifion cymhorthion clyw.

Ers mis Awst 2002, mae dros 78,000 o gleifion ledled Cymru wedi cael triniaeth i osod cymhorthion clyw digidol. Yr ydym wedi cyflwyno system hyfforddi garlam er mwyn ymateb i'r galw cynyddol ar adrannau awdioleg ac er mwyn gostwng y rhestrau aros ar gyfer cymhorthion clyw digidol. Mae hynny yn ein galluogi i hyfforddi graddedigion fel awdiolegwyr, fel y gallant osod cymhorthion clyw sy'n defnyddio technoleg newydd ar ôl blwyddyn o hyfforddiant yn unig, yn hytrach na'r cyfnod arferol o bedair blynedd.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog sicrhau bod y sector gwirfoddol yn cael ei gynnwys wrth gyflwyno'r rhaglen cleifion arbenigol? (WAQ44244)

**Brian Gibbons:** Mae cynnwys y sector gwirfoddol wrth gynllunio, datblygu a gweithredu'r rhaglen cleifion arbenigol o'r pwys pennaf. Mae gweithio drwy bartneriaeth ar y lefel genedlaethol a lleol wedi golygu y bu modd gwneud cynnydd sylweddol yn ymestyn cyrsiau'r rhaglen cleifion arbenigol i gymunedau newydd yng Nghymru.

Dyma rai enghreifftiau i ddangos cyfraniad y sector gwirfoddol:

- grŵp cynghori cenedlaethol y rhaglen cleifion arbenigol—mae'r aelodaeth yn cynnwys Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol cenedlaethol, a chynghorau gwirfoddol sirol, sy'n cynrychioli 22 o gynghreiriau rhwydweithiau iechyd a gofal cymdeithasol;
- grwpiau llywio lleol rhwydwaith y rhaglen cleifion arbenigol—mae'r aelodaeth yn cynnwys ystod o fudiadau gwirfoddol lleol a grwpiau cymunedol i sicrhau bod cyrsiau'n cael eu teilwrio fel eu bod yn diwallu anghenion lleol. Mae mudiadau gwirfoddol yn ffynhonnell atgyfeirio bwysig i gyrsiau'r rhaglen cleifion arbenigol, ac mae llawer iawn o gydweithio o ran hyfforddi ac asesu tiwtoriaid gwirfoddol o dan y rhaglen cleifion arbenigol;
- mae gwahanol fodelau yn cael eu profi o ran cyflenwi cyrsiau'r rhaglen cleifion arbenigol. Er enghraifft, mae'r cyrsiau yng Ngwent yn cael eu cyflwyno gan Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent, drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda rhaglen gydweithredol y bwrdd iechyd lleol, tra bo BILl Caerffili yn prynu cyrsiau drwy Gofal Arthritis yng Nghymru.

**Jonathan Morgan:** Pa ganran o gyllideb pob BILl a werir ar gomisiynu gwasanaethau rhewmatoleg? (WAQ44245)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog gan fod gwasanaethau rhewmatoleg yn cael eu cyllido o'r dyraniadau dewisol i fyrddau iechyd lleol.

**Jonathan Morgan:** Faint o bobl sy'n dioddef o arthritis yng Nghymru sydd dan 25 oed? (WAQ44246)

**Brian Gibbons:** Er nad yw'r union niferoedd yn cael eu casglu'n ganolog, mae canlyniadau arolwg iechyd Cymru (1, 2) am 2003-04 yn dangos bod 1 y cant o oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed yn dweud eu bod yn cael eu trin ar hyn o bryd am arthritis (o'i gymharu ag 14 y cant o'r holl oedolion 16 oed a throsodd). Dywedwyd gan riant/gwarcheidwad tri y cant o blant o dan 16 eu bod yn cael eu trin am broblemau cyhyrysgerbydol ar hyn o bryd, ond ni wyddys pa gyfran o'r ffigur hwn oedd yn arthritis.

Gan gydnabod bod arthritis yn effeithio ar bobl ifanc yn ogystal â'r boblogaeth hŷn, mae'r Cynulliad yn sicrhau bod y materion hyn yn cael sylw yn y gwaith sydd i gael ei gynnal ar arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol yng Nghymru.

**Nodiadau**
1. Arolwg iechyd Cymru 2003-04, Cynulliad Cenedlaethol Cymru.
2. Arolwg wedi ei seilio ar sampl o'r boblogaeth gyffredinol sy'n byw ar aelwydydd preifat yng Nghymru yw arolwg iechyd Cymru. Mae'r canlyniadau yma wedi eu seilio ar ddata a gasglwyd ym mlwyddyn lawn gyntaf yr arolwg, rhwng mis Hydref 2003 a mis Medi 2004. Yn ystod y cyfnod hwn, cymerodd tua 16,300 o oedolion 16 oed a throsodd (yn cynnwys 1,900 o oedolion ifanc rhwng 16 a 24 oed) a 4,300 o blant o dan 16 oed ran yn yr arolwg. Mae'r canlyniadau wedi'u seilio ar holiadur hunangwblhau, ac maent felly yn adlewyrchu dealltwriaeth pobl o'u hiechyd eu hunain yn hytrach nag asesiad clinigol o'u cyflwr meddygol. Mae canlyniadau'r arolwg yn cael eu pwysoli i gymryd y tebygolrwydd o ffactorau dethol anghyfartal i ystyriaeth, a hefyd gyfraddau diffyg ymateb gwahaniaethol.

**Jonathan Morgan:** Pryd fyddwch chi'n cyhoeddi cynllun gweithredu arthritis a chyhyrysgerbydol Cymru gyfan? (WAQ44247)

**Brian Gibbons:** Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i gwblhau drafft cyntaf dogfen Cymru gyfan am arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol. Bydd y gwaith hwn yn ategu'r dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu a gwella'r rheolaeth dros glefydau cronig yng Nghymru fel a amlinellwyd yn y ddogfen strategol 'Cynllun Oes'. Rhagwelir y byddir yn ymgynghori ynghylch y ddogfen ym mis Rhagfyr 2005.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am y newidiadau yng nghostau gweinyddol blynyddol pob BILl? (WAQ44248)

**Brian Gibbons:** Mae costau gweinyddol blynyddol pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru wedi'u cynnwys yn y tabl isod.

| **Bwrdd Iechyd Lleol** | **2004-05 £'000** | **2003-04 £'000** | **Gwahaniaeth £'000** | **cynnydd/gostyngiad y cant** |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 1,562 | 1,578 | -16 | -1.01 y cant |
| Blaenau Gwent | 1,848 | 1,649 | 199 | 12.07 y cant |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 2,266 | 2,098 | 168 | 8.01 y cant |
| Caerffili | 2,865 | 2,340 | 525 | 22.44 y cant |
| Caerdydd | 3,303 | 3,042 | 261 | 8.58 y cant |
| Sir Gaerfyrddin | 2,849 | 2,309 | 540 | 23.39 y cant |
| Ceredigion | 1,723 | 1,598 | 125 | 7.82 y cant |
| Conwy | 1,981 | 1,826 | 155 | 8.49 y cant |
| Sir Ddinbych | 1,864 | 1,770 | 94 | 5.31 y cant |
| Sir y Fflint | 2,204 | 2,089 | 115 | 5.51 y cant |
| Gwynedd | 2,194 | 2,095 | 99 | 4.73 y cant |
| Merthyr Tudful | 1,809 | 1,436 | 373 | 25.97 y cant |
| Sir Fynwy | 2,138 | 1,772 | 366 | 20.65 y cant |
| Castell-nedd Port Talbot | 2,361 | 2,113 | 248 | 11.74 y cant |
| Casnewydd | 2,230 | 2,084 | 146 | 7.01 y cant |
| Sir Benfro | 2,096 | 1,962 | 134 | 6.83 y cant |
| Powys | 1,062 | 923 | 139 | 15.06 y cant |
| Rhondda Cynon Taf | 3,320 | 2,939 | 381 | 12.96 y cant |
| Abertawe | 2,980 | 2,604 | 376 | 14.44 y cant |
| Tor-faen | 1,727 | 1,544 | 183 | 11.85 y cant |
| Bro Morgannwg | 1,726 | 1,636 | 90 | 5.50 y cant |
| Wrecsam | 2,310 | 2,077 | 233 | 11.22 y cant |
| **Cyfanswm** | **48,418** | **43,484** | **4,934** | **11.35 y cant** |

Ffynhonnell: Cyfrifon blynyddol y BILlau 2003-04, 2004-05

Nodyn:
(i) mae'r costau gweinyddol fel y'u nodir yng nghyfrifon y byrddau iechyd lleol ar ôl hepgor y taliadau cyfalaf.
(ii) mae costau gweinyddol yn cynnwys: taliadau i gyfarwyddwyr anweithredol; cyflogau eraill, misol ac wythnosol; treuliau'r sefydliad; trafnidiaeth ac offer symudadwy; adeiladau a safleoedd; contractwyr allanol; taliadau archwilwyr—ffi archwilio; taliadau archwilwyr—ffioedd eraill; ad-daliadau canolfan gwasanaethau busnes; llog sy'n daladwy—lleihau disgownt; llog sy'n daladwy—arall; ac arall.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am faint a gyflogir ym mhob BILl yn ôl band cyflog? (WAQ44249)

**Brian Gibbons:** Nid oes gwybodaeth yn cael ei chasglu'n ganolog am staff GIG fesul band cyflog. Bydd y cyswllt isod at wefan StatsCymru yn eich arwain at dablau sy'n rhoi'r manylion am staff BILl sydd ar gael yn ganolog ar hyn o bryd. http://www.statscymru.cymru.gov.uk/ReportFolders/ReportFolders.aspx

**Val Lloyd:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i ddarparu unedau gweinyddu meddyginiaeth yn awtomatig mewn ysbytai yn Abertawe? (WAQ44251)

**Brian Gibbons:** Mae trydydd cam y prosiect moderneiddio fferyllfeydd ar y gweill ar hyn o bryd ac mae systemau gweinyddu meddyginiaeth yn awtomatig yn cael eu caffael ar gyfer tri safle ychwanegol yn

cynnwys ysbyty Treforys. Mae'r bwrdd prosiect, a sefydlwyd i oruchwylio'r caffael, yn cwrdd heddiw (3 Hydref) i ddethol y cyflenwr/wyr sy'n cael ei/eu ffafrio. Ar yr amod y caiff achosion busnes yr ymddiriedolaethau eu cymeradwyo, dylai system Treforys fod wedi cael ei sefydlu ac yn weithredol erbyn mis Mawrth 2006.

**Val Lloyd:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi eu cymryd i sicrhau agwedd gydgysylltiedig rhwng timau rheoli haint a glendid ysbytai? (WAQ44252)

**Brian Gibbons:** Lluniodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grŵp amlddisgyblaethol, yn cynnwys cynrychiolaeth o bwyllgorau clefydau trosglwyddadwy ac o blith nyrsys rheoli heintiau, i ddatblygu safonau glendid cenedlaethol ar gyfer ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru. Cafodd y safonau eu cyhoeddi ym mis Gorffennaf 2003, ac mae'n ofynnol yn ôl y safonau fod staff rheoli heintiau yn cael eu cynnwys ar bob lefel weithredu.

Yr oeddwn yn croesawu'r ddadl am Reol Sefydlog Rhig 31 yr wythnos diwethaf, sy'n ceisio cryfhau'r cysylltiadau pwysig hwn. Bydd rôl y cyfarwyddwr arwain anweithredol yn y maes hwn yn cael ei hystyried yn ofalus a bydd y manylion yn dod yn ôl i Gyfarfod Llawn.

**Jonathan Morgan:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol er mwyn hwyluso'r oedi wrth drosglwyddo gofal? (WAQ44259)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i gynorthwyo llywodraeth leol, y GIG a'u partneriaid allweddol i wella'u perfformiad o ran symud pobl ymlaen i'r sefydliad gofal priodol ar yr adeg iawn.

Er enghraifft, o 1 Ebrill 2004, mae £19 miliwn ychwanegol y flwyddyn wedi cael ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol i helpu i roi sylw i flaenoriaethau allweddol yn y gyfundrefn iechyd a gofal cymdeithasol ac i gynyddu eu capasiti i ofalu am bobl gartref ac yn y gymuned. Mae'r awdurdodau lleol yn cyfeirio eu hadnoddau tuag at gyllido cynlluniau sy'n lleihau derbyniadau y mae modd eu hosgoi i ysbytai, hwyluso rhyddhau yn ddiogel ac yn amserol, hyrwyddo annibyniaeth yn y gymuned a chynnal capasiti yn y sectorau cartrefi preswyl a gofal nyrsio.

Mae cyllideb ddrafft y Cynulliad ar gyfer 2006-07 yn cynnwys bron i £45 miliwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, a fydd hefyd yn help i fynd i'r afael â'r pwysau hyn.

Ymysg y camau eraill sy'n cael eu cymryd mae:
- cofnodi a monitro'r rhesymau am bob oedi yn ofalus;
- monitro perfformiad yn drylwyr;
- tîm yr asiant dros newydd yn gweithio gyda sefydliadau GIG a llywodraeth leol i wella prosesau a hyrwyddo arferion da; a
- mynd i'r afael â ffactorau neilltuol sy'n achosi oedi, er enghraifft, cryfhau'r canllawiau ar faterion yn ymwneud â dewis y claf.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am honiad diweddar y Prif Weinidog bod oes rhestri aros hir ar gyfer ysbytai ar ben? (WAQ44260)

**Brian Gibbons:** O'i gymharu â mis Awst 2004, bu gostyngiad o 87 y cant yn y cleifion sy'n aros dros 12 mis am driniaeth fel cleifion mewnol/achosion dydd a gostyngiad o 45 y cant yn y rhai sy'n aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Y targed ar gyfer mis Rhagfyr 2009 yw cyfnod aros o chwe mis fel cyfanswm.

**Kirsty Williams:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i gyflwyno mamograffiaeth ddigidol yng Nghymru? (WAQ44263)

**Brian Gibbons:** Galluogodd rhaglen gaffael Cymru gyfan yn 2002-03 ymddiriedolaethau yng Nghymru i gaffael a gweithredu pum uned mamograffiaeth ddigidol maes llawn am gost o £250,000 yr un yn fras.

Cafodd y rhain eu gosod yn yr ysbytai canlynol: Felindre, Ysbyty Athrofaol Cymru, Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty'r Tywysog Phillip, a Wrecsam Maelor.

Mae un uned arall yn weithredol yn ysbyty newydd Castell-nedd PortTalbot.

Penderfyniad clinigol lleol yw'r penderfyniad i gyflwyno mamograffiaeth ddigidol, a rhaid i'r penderfyniad fod yn gyson â'r cynlluniau rhanbarthol i ail-gyflunio'r gwasanaethau gofal eilaidd. Dylai cynlluniau rhanbarthol i gyflwyno mamograffiaeth ddigidol gael eu cyflwyno i'r fforwm cynghori ar foderneiddio delweddu, a sefydlwyd drwy'r strategaeth gwasanaethau diagnostig.

**Rhodri Glyn Thomas:** Yn dilyn yr atebion i WAQ44077, WAQ44078 ac WAQ44079; a all y Gweinidog egluro bod deunydd gwrthfeirws ar gael yn benodol ar gyfer ffliw adar, ac a all gadarnhau faint ohono sydd ar gael yng Nghymru? (WAQ44265)

**Brian Gibbons:** Mae'r feirws adar H5N1 sydd wedi ymddangos mewn dofednod yn ne-ddwyrain Asia er 2003 wedi cynyddu'r pryder y gallai fod yn fagwrfa i feirws newydd ffliw dynol gyda photensial pandemig.

Nid yw cyffuriau gwrthfeirws yn targedu hil benodol o'r ffliw a, chyn gynted ag y caiff pandemig ei ddatgan gan Sefydliad Iechyd y Byd, byddant yn cael eu darparu i drin y bobl hynny sydd â symptomau clinigol salwch tebyg i'r ffliw. Mae gallu'r gwneuthurwyr i ddiwallu archebion ar draws y byd wedi golygu y byddwn ni, ynghyd â gwledydd eraill y DU, yn cael ein cyflenwadau fesul tipyn fel a ganlyn:

- 40,000 dos bob mis rhwng mis Awst 2005 a mis Chwefror 2006 (cynhwysol);
- 85,000 dos ym mis Mawrth 2006;
- 40,000 dos bob mis rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2006 (cynhwysol);
- 80,000 dos ym mis Gorffennaf a mis Awst 2006; ac
- 85,000 dos ym mis Medi 2006.

Mae hyn yn rhoi cyfanswm o 730,000 dos inni i gwrdd â'r gyfradd ymosodiadau clinigol sy'n cael ei hamcangyfrif gan yr arbenigwyr.

**Laura Anne Jones:** Yn dilyn yr ateb i WAQ44035, a wnaiff y Gweinidog ddweud sut mae'n diffinio 'angen meddygol'? (WAQ44267)

**Brian Gibbons:** Mae'r diffiniad o angen meddygol wedi ei gynnwys yn nogfen 1992 y Swyddfa Gymreig sy'n dwyn y teitl 'Ambulance and Other Patient Transport Services in Wales: Operation Use and Performance Standards'. O ran darparu trafnidiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys, meddyg teulu, ymgynghorydd, bydwraig neu gynrychiolydd enwebedig arall sy'n penderfynu ar angen meddygol cleifion, a bydd yn dibynnu ar gyflwr meddygol y claf. Deallaf y gallai fod amrywiadau yn y ffordd y mae'r meini prawf ar angen meddygol yn cael eu dehongli ar draws Cymru. Mae'r Cynulliad yn cynnal adolygiad o drafnidiaeth i gleifion nad ydynt yn achosion brys ac mae hyn yn cynnwys ystyried y meini prawf presennol ar ddarparu trafnidiaeth i'r ysbyty i gleifion nad ydynt yn achosion brys.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r ardaloedd hynny ar lannau Cymru lle ceir claddu pobl yn y môr gan roi'r rhesymau dros unrhyw newidiadau a wnaethpwyd yn ystod y 10 mlynedd diwethaf sy'n effeithio ar leoliad yr ardaloedd hyn? (WAQ44303)

**Brian Gibbons:** Nid oes unrhyw safleoedd claddu yn y môr oddi ar arfordir Cymru. Rhaid cael caniatâd o dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd 1985 cyn y ceir claddu rhywun yn y môr. Mae'r Uned Caniatadau Morol a'r Amgylchedd yn Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, sy'n gweithredu ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru yn asesu ceisiadau o dan Ddeddf Gwarchod yr Amgylchedd, wedi ein hysbysu nad yw wedi derbyn unrhyw geisiadau sydd â buddiannau yng Nghymru am gael claddu rhywun yn y môr dros y blynyddoedd diwethaf, ar wahân i un cais yn yr wythnos diwethaf.

Mae'r Uned Caniatadau Morol a'r Amgylchedd hefyd wedi dweud y byddai'n rhaid cynnal asesiad amgylcheddol llawn ac ymgynghoriad helaeth cyn dynodi safle claddu newydd, gan ei bod yn hanfodol osgoi'r profiad anffodus lle gallai gweithgarwch pysgota darfu ar gyrff neu eu bod yn cael eu golchi i'r lan yn ystod stormydd ac ati. Mae nifer o safleoedd gwaredu masnachol o amgylch arfordir Cymru ac yr wyf wedi gofyn i'r Uned Caniatadau Morol a'r Amgylchedd ymchwilio ar y cyd â'i chynghorwyr gwyddonol, Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu, i ganfod a allai unrhyw rai o'r safleoedd hynny fod yn addas i gymryd claddedigaeth.

Penderfyniad i Lywodraeth y Cynulliad yw pa un i roi caniatâd.

**Ann Jones:** Yn dilyn ei ateb i WAQ42536, a wnaiff y Gweinidog nodi pryd y mae'n rhagweld cyhoeddi polisi a chynllun gweithredu arthritis a chyhyrysgerbydol Cymru gyfan (WAQ44304)

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynnydd a wnaethpwyd hyd yn hyn gyda datblygu polisi a chynllun gweithredu arthritis a chyhyrysgerbydol Cymru gyfan? (WAQ44305)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ44247 ar 4 Hydref 2005.

**Ann Jones:** I ba raddau y mae polisi a chynllun gweithredu arthritis a chyhyrysgerbydol Cymru gyfan yn adlewyrchu gwaith a wnaethpwyd gan yr Adran Iechyd yn paratoi ar gyfer y strategaeth gyhyrysgerbydol yn Lloegr? (WAQ44307)

**Brian Gibbons:** Mae'r Cynulliad yn ymwybodol o'r strategaeth gyhyrysgerbydol sy'n cael ei pharatoi gan yr Adran Iechyd ac mae wedi monitro'r dull sy'n cael ei ddatblygu yn Lloegr gyda diddordeb. Mae'r datblygu ar waith arthritis a chyhyrysgerbydol yng Nghymru wedi cymryd amrywiaeth eang o faterion i ystyriaeth, yn cynnwys y rhai a amlygwyd yn Lloegr ac ar draws Ewrop. Cytunwyd ar ddull clir a neilltuol ar gyfer y gwaith o ddatblygu'r gwasanaethau a gwella iechyd a lles unigolion, gan roi ystyriaeth i anghenion pobl sy'n byw gyda chyflyrau cyhyrysgerbydol yng Nghymru. Mae'r dull gweithredu yn canolbwyntio ar atal, diagnosio, trin a rheoli, a hybu annibyniaeth.

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw arweiniad ynghylch symiau o arian ar gyfer gwario personol gan drigolion cartrefi henoed eiddil eu meddwl yng Nghymru? (WAQ44308)

**Brian Gibbons:** Mae rheoliadau a wnaethpwyd o dan Ddeddf Cymorth Gwladol 1948 yn rhagnodi lwfans wythnosol un gyfradd ar gyfer treuliau personol i drigolion cartrefi preswyl, sydd ar hyn o bryd yn £19.10. Mae gan awdurdodau lleol bwerau o dan y Ddeddf i ganiatáu swm gwahanol i'r swm sydd wedi ei ragnodi lle mae amgylchiadau arbennig yn mynnu hynny. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi canllawiau ffurfiol i'r awdurdodau yn flynyddol ar y lefel sydd wedi ei rhagnodi i'r lwfans treuliau personol.

**Val Lloyd:** Sawl swydd uwch feddyg tŷ a fu yng Nghymru rhwng 1990-2004? (WAQ44309)

**Brian Gibbons:** Mae gwybodaeth am y nifer o uwch feddygon tŷ a fu mewn swydd yn y maes cyhoeddus i'w gweld ar wefan StatsCymru ar http://www.statscymru.cymru.gov.uk/intro_eng/index.htm. Nid oes data'n cael ei gasglu na'i gyhoeddi'n ganolog am nifer y swyddi uwch feddygon tŷ sydd yn wag.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio herceptin i drin canser y fron yng Nghymru, gan roi'r ffigyrau fesul Ymddiriedolaeth GIG? (WAQ44310)

**Brian Gibbons:** Mewn achosion lle mae canser y fron wedi datblygu'n helaeth yn unig y mae Trastuzumab **(**herceptin) wedi ei drwyddedu i gael ei ddefnyddio yng Nghymru ar hyn o bryd. Penderfyniad clinigol ar sail natur y tiwmor a pha mor briodol yw'r driniaeth i'r unigolyn dan sylw, yn unol â'r canllawiau, yw'r penderfyniad i ragnodi Trastuzumab. Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol unigol yw asesu'r anghenion iechyd yn lleol a gweithio gyda darparwyr y gwasanaethau gofal iechyd ac eraill i gynllunio a blaenoriaethu gwasanaethau i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Nid oes gwybodaeth am ddefnydd ymddiriedolaethau unigol yn cael ei dal yn ganolog.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am unrhyw arian a ddyrannwyd i BILl Tor-faen yn sgil rhoi fformiwla Townsend ar waith, ar gyfer blwyddyn ariannol 2005/6? (WAQ44311)

**Brian Gibbons:** Cafodd BILl Tor-faen gynnydd o £6.7 miliwn o arian yn nyraniad refeniw 2005-06 i'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru. Yr oedd hyn yn cynnwys £0.06 miliwn, a oedd yn cynrychioli dosbarthiad gwahaniaethol o arian twf i'r byrddau iechyd lleol hynny y mae eu dyraniad cyfredol fwy na 5 y cant islaw eu cyfrannau targed, fel a nodwyd gan fformiwla anghenion uniongyrchol Townsend. Yn ychwanegol, cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen £3.950 miliwn yn nyraniad refeniw 2005-06 y byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru, a oedd yn cynrychioli cyfran reolaidd y bwrdd o'r £30 miliwn a ddarparwyd yn 2004-05 i symud agenda ddiwygio Wanless yn ei blaen, a ddyrannwyd gan ddefnyddio fformiwla Townsend. Hyd yma, mae Bwrdd Iechyd Lleol Tor-faen wedi cael £5.8 miliwn o arian yn unol â gweithredu fformiwla Townsend.

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion y cynnydd a wnaethpwyd yn sgil rhoi fformiwla Townsend ar waith ym mhob BILl, gan ddangos pa mor bell oddi wrth eu targed y mae pob BILl? (WAQ44312)

**Brian Gibbons:** Mae'r tabl isod yn dangos pa mor bell yw pob bwrdd iechyd lleol oddi wrth gyfrannau targed fformiwla Townsend fel canran o'r gyfran darged. Mae'r tabl yn cymharu pellter y byrddau oddi wrth eu targed adeg eu sefydlu yn 2003-04 â'u pellter oddi wrth y targed ar hyn o bryd, ar sail dyraniad refeniw 2005-06. Mae gwerth negyddol yn cynrychioli bwrdd y mae ei ddyraniad cyfredol islaw ei gyfran darged. Yn ystod y cyfnod, mae pum bwrdd iechyd lleol wedi symud ymhellach oddi wrth eu cyfrannau targed (Rhondda Cynon Taf, Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr, Gwynedd a Sir y Fflint) tra bo'r byrddau eraill i gyd wedi symud yn nes at eu cyfrannau targed.

| | **Pellter 2003-04 o'r Targed %** | **Pellter 2005-06 o'r Targed %** |
|---|---|---|
| BILl Caerffili | -13.4 | -9.6 |
| BILl Blaenau Gwent | -4.4 | -1.5 |
| BILl Tor-faen | -18.8 | -9.1 |
| BILl Sir Fynwy | 14.4 | 10.7 |
| BILl Casnewydd | -4.1 | -3.9 |
| BILl Bro Morgannwg | 9.3 | -1.5 |
| BILl Rhondda Cynon Taf | -0.1 | 3.1 |
| BILl Merthyr Tudful | -3.8 | -2.2 |

| | | |
|---|---|---|
| BILl Caerdydd | 0.0 | -3.2 |
| BILl Powys | 9.2 | 2.3 |
| BILl Ceredigion | 10.3 | 6.8 |
| BILl Sir Benfro | 4.2 | 3.3 |
| BILl Sir Gaerfyrddin | -9.9 | -6.9 |
| BILl Abertawe | -6.3 | -0.4 |
| BILl Castell-nedd Port Talbot | -5.0 | -1.5 |
| BILl Pen-y-bont ar Ogwr | 0.5 | 7.3 |
| BILl Ynys Môn | 4.7 | 1.6 |
| BILl Gwynedd | 13.3 | 15.8 |
| BILl Conwy | 2.4 | 0.1 |
| BILl  Sir Ddinbych | 16.2 | 14.8 |
| BILl Sir y Fflint | -5.7 | -6.2 |
| BILl Wrecsam | 4.7 | 1.9 |

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddweud a achoswyd yr haint E-coli diweddar yng Nghymru gan fewnforion o gig eidion neu gan gig eidion o Brydain? (WAQ44317)

**Brian Gibbons:** Deallaf fod tîm rheoli'r haint wedi bod yn edrych ar ystod eang iawn o fwydydd, yn cynnwys amrywiaeth o gigoedd, yn ystod yr ymchwiliad hwn. Nid wyf wedi cael gwybodaeth am y rôl y gallai cig eidion fod wedi ei chwarae o bosibl a byddwn yn awgrymu ein bod yn gadael i dîm rheoli'r haint gwblhau ei waith. Bydd tîm rheoli'r haint yn cyflwyno adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru am yr achosion o'r haint.

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys? (WAQ44318)

**Brian Gibbons:** Mae cyfanswm y cyllid ar gyfer Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn 2005-06, fel y'i nodwyd yn nyraniadau refeniw'r byrddau iechyd lleol a Chomisiwn Iechyd Cymru a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2004, yn £153.316 miliwn. Ers dyraniad mis Rhagfyr 2004, mae £6.795 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddyrannu i'r bwrdd iechyd lleol ar gyfer 2005-06, gan ddod â'r dyraniad llawn i £160.111 miliwn. Mae'r cynnydd pellach hwn yn cynnwys £0.871 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer y contract newydd am wasanaethau meddygol cyffredinol, £2.693 miliwn am y contract fferylliaeth newydd, a £3.231 miliwn am wasanaethau ysbyty ac iechyd cymunedol.

**Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella deintyddiaeth yng Nghonwy? (WAQ44324)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn ymwybodol o'r anawsterau a wynebir mewn rhai rhannau o Gymru o ran cyrchu at wasanaethau deintyddol y GIG. Mae camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hynny drwy fenter ddeintyddiaeth Cymru, sy'n rhoi cymhellion ariannol i ddeintyddion sy'n barodi i ddarparu triniaeth ddeintyddol GIG mewn ardaloedd dynodedig. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda BILl Conwy i sicrhau bod  y defnydd mwyaf posibl yn cael ei wneud o'r cynlluniau yr ydym wedi eu sefydlu i ddenu deintyddion i ardaloedd lle mae prinder.

Mae cynlluniau peilot gwasanaeth deintyddol personol wedi bod yn boblogaidd gyda deintyddion ar draws Cymru. Seilir y rhain ar y contract deintyddol newydd arfaethedig sydd i ddod i rym o fis Ebrill 2006 ac maent yn darparu'r hyblygrwydd angenrheidiol mewn arferion gwaith y bu deintyddion yn gofyn amdano. Hyd yma, mae 30 o geisiadau gwasanaeth deintyddol personol wedi cael eu cymeradwyo gan

sicrhau darpariaeth GIG i dros 100,000 o gleifion a darparu capasiti ychwanegol ar gyfer 12,000 pellach o gleifion GIG. Mae BILl Conwy wedi cyflwyno un cais gwasanaeth deintyddol personol, a ddaeth yn weithredol ym mis Medi. Mae'r BILl mewn trafodaeth gyda thri phractis pellach ar hyn o bryd ynghylch sefydlu gwasanaeth deintyddol personol.

**Denise Idris Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella gwasanaethau iechyd yng Nghonwy? (WAQ44325)

**Brian Gibbons:** Bwrdd Iechyd Lleol Conwy sy'n gyfrifol am ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth leol a, thrwy ei rôl gynllunio a chomisiynu, am gytuno gyda darparwyr lleol ar sut mae'r gwasanaethau i gael eu gwella'n barhaus. Mae'r datganiad anghenion a'r blaenoriaethau a'r cynlluniau amlinellol wedi cael eu nodi yn ei strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a lles, 2005-08.

Yn ychwanegol at y gwasanaethau gofal sylfaenol a ddarperir gan feddygon teulu, mae Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-orllewin Cymru yn darparu gwasanaethau gofal cymunedol a gofal eilaidd i'r boblogaeth leol. Mae'r sefydliadau hyn i gyd yn gweithio'n galed i wella gwasanaethau, ac mae'r gostyngiad mewn amseroedd aros yn lleol yn un enghraifft o lwyddiant eu hymdrechion hwy a llwyddiant y cynlluniau sy'n cael eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Lisa Francis:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw gynlluniau i gynyddu'r cyllid i wasanaeth ambiwlans Cymru? (WAQ44334)

**Brian Gibbons:** Ar gyfer 2005-06, darparwyd £12.516 miliwn o gyllid ychwanegol i ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru tuag at yr 'Agenda ar gyfer Newid'. Bydd gofynion cyllido'r gwasanaethau ambiwlans i'r dyfodol yn dibynnu ar y modelau cyflenwi gofal brys sy'n cael eu datblygu fel rhan o'r prosiect i ddatblygu'r gwasanaethau gofal brys. Mae'r prosiect hwn yn datblygu polisi ar gyfer pob gwasanaeth gofal brys a gwasanaeth heb ei gynllunio yng Nghymru, yn cynnwys rôl y gwasanaeth ambiwlans i'r dyfodol.

**Jenny Randerson:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu rhoi ar waith i ddenu pobl newydd i faes meddygaeth academaidd? (WAQ44343)

**Brian Gibbons:** Yr wyf yn cydnabod bod problem o ran recriwtio i faes meddygaeth academaidd yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cytuno â'r argymhellion yn adroddiad Walport ac yr wyf wedi gofyn i'r Prif Swyddog Meddygol weithio gyda chynrychiolwyr o faes meddygaeth academaidd a deoniaeth yr ôl-raddedigion i weithredu'r argymhellion hyn. Yr ydym yn bwriadu, o dan y polisi i foderneiddio gyrfaoedd meddygol, darparu a hyrwyddo profiad o feddygaeth academaidd yn gynharach yng ngyrfa meddygon dan hyfforddiant.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i weithredu rhaglen sgrinio ar gyfer canser y coluddyn? (WAQ44344)

**Brian Gibbons:** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi comisiynu'r grŵp cyd-drefnu gwasanaethau canser i lunio fframwaith, a fydd yn amlinellu beth sy'n ofynnol i wella gwasanaethau canser y coluddyn yng Nghymru. Bydd y fframwaith hwn yn ymdrin â phob agwedd o ofal i gleifion, nid dim ond sgrinio. Bydd y grŵp yn ymgynghori ynghylch ei waith yn fuan a disgwyliwn gael fframwaith drafft terfynol, wedi ei gostio, i'w ystyried yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd penderfyniadau terfynol am y fframwaith, yn cynnwys rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y coluddyn yng Nghymru, yn cael eu cyhoeddi wedyn, gan gymryd i ystyriaeth gymeradwyaeth y pwyllgor sgrinio cenedlaethol i raglen sgrinio genedlaethol. Bydd y fframwaith yn cael ei weithredu fesul cam dros gyfnod ond yr ydym yn hyderus y

bydd y dull hwn yn sicrhau gwasanaeth gyda'r gorau yn y byd i gleifion yng Nghymru sydd â chanser y coluddyn, neu y mae risg iddynt ei gael.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i weithredu rhaglen sgrinio ar gyfer canser y prostad? (WAQ44345)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r pwyllgor sgrinio cenedlaethol, sy'n cynghori pedair adran iechyd y DU, yn cefnogi rhaglen sgrinio genedlaethol ar gyfer canser y prostad ar sail y dystiolaeth bresennol. Mae modd darparu sgrinio os gwneir cais am hynny cyhyd â bod y dyn yn deall yn llwyr y diffyg tystiolaeth safonol am fanteision a risgiau cymharol y profion.

**Jenny Randerson:** Pam mae'r targed 10 diwrnod ar gyfer asesu canser y fron wedi newid i un sy'n caniatáu dau fis cyn dechrau triniaeth? (WAQ44346)

**Brian Gibbons:** Yr oedd y targed 10 diwrnod yn monitro rhan fechan iawn o'r llwybr i gleifion: yr amser o'r adeg y câi claf ei gyfeirio hyd at yr apwyntiad cyntaf gydag arbenigwr canser. Yr oedd hyn yn sicrhau bod cleifion yr amheuir bod canser arnynt yn dod i gysylltiad ag arbenigwyr canser mor gynnar â phosibl, ond nid oedd yn disgrifio pa mor hir y byddai'n rhaid iddynt aros am ddiagnosis, cynllun trin neu ddechrau triniaeth.

Mae'r safonau cenedlaethol newydd ar gyfer canser y fron yn canolbwyntio, felly, ar sicrhau bod cleifion yn cael triniaeth am eu canser yn gyflym, ni waeth drwy ba lwybr y cânt eu cyfeirio i mewn i'r gwasanaeth.

Dywed y safonau fod cleifion sy'n cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu fel achosion brys yr amheuir bod canser arnynt, a bod hyn yn cael ei gadarnhau gan yr ymgynghorydd neu aelod dynodedig o'r tîm amlddisgyblaethol a'u bod wedyn yn cael eu diagnosio â chanser, i fod i ddechrau ar driniaeth ddiffiniol o fewn dau fis i'r hysbysiad yn eu cyfeirio ddod i law'r ysbyty. Bydd cyrraedd y safon hon erbyn mis Rhagfyr 2006 yn arwain at well canlyniadau i gleifion.

**Rosemary Butler:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni am y gwaith o greu'r cyfleuster plant integredig arfaethedig yn Nhy-du? (WAQ44353)

**Brian Gibbons:** Mae'r gwaith o ddatblygu canolfan blant de Gwent yn cael ei dywys yn ei flaen gan yr elusen 'The Sparkle Appeal' ac Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent. Mae fy swyddogion yn disgwyl cael achos amlinellol strategol, sef cam cyntaf proses yr achos busnes, oddi wrth yr ymddiriedolaeth yn y misoedd nesaf. Bydd hwn yn dangos yr anghenion yn fras ac yn amlinellu cynigion i ddiwallu'r anghenion hynny, ynghyd â chefnogaeth y comisiynwyr i'r cynnig a'i ofynion refeniw cysylltiol.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd aros ysbytai, bod 679 o bobl yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol yn Sir Gaerfyrddin? (WAQ44354)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 13,178 o bobl yng Nghymru yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol? (WAQ44357)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 337 o bobl yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol ym Mhowys? (WAQ44359)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 587 o bobl yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol yn Sir Benfro? (WAQ44360)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 120 o bobl yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol yng Ngwynedd? (WAQ44362)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 146 o bobl yn aros dros 12 mis i weld i weld meddyg ymgynghorol yng Ngheredigion? (WAQ44363)

**Brian Gibbons:** Bydd y rhesymau pam fod y cleifion hyn yn gorfod aros yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau unigol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y cleifion sy'n aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi gostwng 45 y cant. Y targed sydd i gael ei gyrraedd erbyn 31 Mawrth 2006 yw na ddylai neb aros mwy na 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Mae'r cymunedau iechyd i gyd yn gweithio tuag at gyrraedd y targed hwn ac mae'r swyddfeydd rhanbarthol yn monitro'r cynnydd yn fanwl.

I gynorthwyo'r ymddiriedolaethau i gyrraedd y targedau amseroedd aros eleni, mae £32 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddarparu.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 117 o bobl yng Nghymru yn aros dros 18 mis ar gyfer triniaeth i gleifion mewnol? (WAQ44355)

**Brian Gibbons:** Bydd llawer o'r cleifion sy'n aros dros 18 mis am driniaeth wedi gwrthod cynnig mewn lleoliad amgen o dan gynllun ail gynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru, ac wedi dewis aros ar restr aros eu hymddiriedolaeth GIG wreiddiol. Mae ystyriaethau capasiti wedi codi yng nghyswllt rhai triniaethau, yn cynnwys llawdriniaeth fawr ar yr asgwrn cefn, ac mae nifer o'r unigolion hyn yn aros am lawdriniaeth felly. Mae'r ymddiriedolaethau yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau capasiti hyn.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 38 o bobl yng Nghymru yn aros dros 18 mis i weld meddyg ymgynghorol? (WAQ443256)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 25 o bobl yn aros dros 18 mis i weld meddyg ymgynghorol ym Mhowys? (WAQ44358)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 6 o bobl yng Ngwynedd yn aros dros 18 mis i weld meddyg ymgynghorol? (WAQ44361)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau diweddar ar amseroedd ysbytai, bod 1 person yn aros dros 12 mis i weld meddyg ymgynghorol yng Ngheredigion? (WAQ44364)

**Brian Gibbons:** Bu gostyngiad enfawr o 99.5 y cant yn nifer y cleifion sy'n aros dros 18 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. O'r 38 o bobl a oedd wedi aros dros 18 mis i weld meddyg ymgynghorol ar draws Cymru ar ddiwedd mis Awst, yr oedd 24 yn aros i weld ymgynghorydd orthodontig ym Mhowys. Mae hyn oherwydd problemau yn recriwtio i swydd cynorthwy-ydd clinigol sy'n wag yn y clinig orthodonteg. Mae'r BILl yn gweithio gyda swyddfa ranbarthol y Cynulliad a disgwylir ateb i'r broblem yn fuan. O ran y gweddill, mae 12 yn aros am apwyntiadau mewn ymddiriedolaethau GIG y tu allan i Gymru, a dau yn aros ym Mhontypridd a Rhondda.

Un o'r targedau sydd i fod i gael ei gyrraedd erbyn 31 Mawrth 2006 yw na ddylai neb aros mwy na 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol. Fy nharged tymor hir yw y dylai'r amser aros hwyaf drwyddo draw, o'r adeg y caiff claf ei gyfeirio gan feddyg teulu hyd nes iddo gael triniaeth, fod yn ddim mwy na chwe mis erbyn 31 Rhagfyr 2009, a bod hynny'n cynnwys amseroedd aros am brofion diagnostig. I gyrraedd y targed eleni, mae £32 miliwn ychwanegol wedi cael ei ddarparu i gymunedau iechyd.

**Laura Anne Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cludiant sydd ar gael i gleifion allanol ar gyfer apwyntiadau ysbyty yng Nghymru? (WAQ44366)

**Brian Gibbons:** Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddais i WAQ44035.

**Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael gyda swyddogion llywodraeth leol ynghylch cynyddu nifer y gweithwyr cymwys er mwyn darparu gwasanaethau adsefydlu i'r deillion? (WAQ44368)

**Brian Gibbons:** Mater i gael ei ystyried ac i benderfynu arno'n lleol yw faint o weithwyr cymwysedig sy'n ofynnol i ddarparu gwasanaethau adsefydlu i'r deillion. Ym mis Awst eleni, bu fy swyddogion yn hwyluso cyfarfod gyda nifer o bartïon sydd â diddordeb, yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Cyngor Gofal Cymru, Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a'r sector gwirfoddol i drafod nifer o faterion yn ymwneud â gweithwyr sy'n darparu gwasanaethau adsefydlu i'r deillion.

Yn dilyn trafodaethau unigol yng ngrwpiau safonau galwedigaethol (Cyngor Gofal Cymru yng Nghymru) pob un o'r pedair gwlad ar draws y DU, cytunwyd bod angen clir i sicrhau bod cymwysterau priodol ar gael i weithwyr sy'n gweithio ym maes namau ar y synhwyrau, yn cynnwys gweithwyr adsefydlu i'r deillion. Mae cais am gyllid ar gyfer hyn wedi cael ei wneud i Fwrdd Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol y DU.

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr amser y mae'n ei gymryd i gleifion aros am asesiad yn y ganolfan aelodau artiffisial a chyfarpar? (WAQ44372)

**Brian Gibbons:** Mae'r tri gwasanaeth aelodau artiffisial a chyfarpar yng Nghymru i fod i feincnodi eu gwasanaethau yn erbyn gwasanaethau mewn rhannau eraill o'r DU. Mae'r gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2006 ac mae i fod i edrych ar yr holl wasanaethau sy'n cael eu darparu, nid dim ond yr elfen cadeiriau olwyn. Bydd y meincnodi yn edrych ar dri maes:

- darparu gwasanaethau—beth mae Cymru yn ei ddarparu o'i gymharu â gwasanaethau eraill a'r hyn y mae'n ei gostio;
- effeithlonrwydd y gwasanaeth—a fydd yn cynnwys prosesau megis asesu ac amseroedd aros o ran danfon cyfarpar; a
- chaffael cyfarpar.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad cynnydd ar y Strategaeth Therapi? (WAQ44378)

**Brian Gibbons:** Yr wyf wedi cymeradwyo'r strategaeth therapi i gael ei chyhoeddi fel dogfen ymgynghori ac felly gallwch ddisgwyl iddi fod ar gael yn fuan iawn. Hon fydd y strategaeth gyntaf ar gyfer gwasanaethau therapi yng Nghymru ac mae'n cael ei bwriadu fel strategaeth alluogi a chanllaw i ailfodelu gwasanaethau. Mae'n cefnogi'r nod a'r amcanion a nodwyd yn 'Cynllun Oes' ac yn cwmpasu rolau'r gwasanaethau therapi ar draws yr holl sbectrwm iechyd a lles o atal hyd at ymyrryd cynnar, gofal aciwt, adsefydlu a gofal tymor hir.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau iechyd yng Nghymru? (WAQ44380)

**Brian Gibbons:** Mae trais yn y gweithle yn annerbyniol, ac mae lleihau'r trais yn erbyn staff sy'n gweithio yn y GIG yn flaenoriaeth uchel i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae ystod o fecanweithiau cenedlaethol a lleol yn rhoi sylw i ddiogeledd yn ogystal â thrais ac ymosodedd gan roi'r hyblygrwydd i ymateb yn briodol i achosion unigol ac anghenion ac amgylcheddau lleol.

Ym mis Ionawr 2002, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru Gylchlythyr Iechyd Cymru WHC(2002)09 o dan y teitl 'Stopping Violence Against Staff Working in the NHS'. Argymhellir y dylai ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru fabwysiadu trefn dim goddefgarwch tuag at gleifion, perthnasau ac aelodau o'r cyhoedd sy'n defnyddio trais ac ymosodedd tuag at staff GIG. Dylai ymddiriedolaethau sicrhau bod polisïau trais ac ymosodedd wedi cael eu sefydlu a bod y rhain wedi cael eu trafod gyda'r staff a bod eu barn hwy wedi cael ei chymryd i ystyriaeth. Dylai digwyddiadau gael eu cofnodi a'u monitro, dylid cynnal asesiadau risg, dylid sefydlu targedau i leihau trais a dylid datblygu cynlluniau gweithredu. Yn ychwanegol, dylai ymddiriedolaethau sicrhau bod anghenion staff am hyfforddiant mewn technegau ymyrryd diogel wedi cael eu nodi a bod cynllun hyfforddi'n cael ei ddyfeisio i ddiwallu'r anghenion hynny. Yr oedd y cylchlythyr yn annog ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru i gefnogi staff sy'n dymuno dwyn achos yn erbyn y rhai sy'n ymddwyn yn dreisgar ac yn sarhaus.

Ym mis Gorffennaf eleni, cyhoeddasom fframwaith diogeledd cenedlaethol i ddarparu canllawiau gweithredol a safonau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru. Yr ydym hefyd wedi rhoi ein cefnogaeth i ddatblygu pasbort hyfforddiant trais ac ymosodedd a chynllun gwybodaeth i ddarparu fframwaith er mwyn darparu hyfforddiant trais ac ymosodedd o fewn GIG Cymru. Mae'n rhoi canllawiau ar ddatblygu dogfennau i sicrhau bod trais ac ymosodedd yn cael eu hasesu a'u rheoli yn effeithiol. Mae'r GIG wedi gweithio'n agos iawn gyda'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i gynhyrchu'r pasbort hwn a deallaf fod Cymru ar y blaen yn y GIG yn y maes hwn.

**Lisa Francis:** Faint o arian sydd ei angen i ariannu "Agenda ar gyfer Newid" o ran gwasanaethau ambiwlans yng Nghymru? (WAQ44399)

**Brian Gibbons:** Nodwyd swm o £12.516 miliwn i ariannu'r 'Agenda ar gyfer Newid' o fewn y gwasanaeth ambiwlans yng Nghymru. Deilliwyd y ffigur hwn o fodel 'Agenda ar gyfer Newid' yr Adran Iechyd a oedd yn ymgorffori canlyniadau dwy ymddiriedolaeth ambiwlans a fu'n rhoi'r agenda ar waith yn gynnar yn Lloegr. Yr ydym yn monitro gweithrediad yr 'Agenda ar gyfer Newid' yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ofalus.

**Lisa Francis:** Faint o arian a roddir i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ariannu'r "Agenda ar gyfer Newid", pa adran iechyd o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ddyrannu'r arian hwn a phryd y bydd Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ei dderbyn? (WAQ44400)

**Brian Gibbons:** Mae'r cyllid ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i ariannu'r 'Agenda ar gyfer Newid' yn £12.516 miliwn yn 2005-06. Y Gyfarwyddiaeth Adnoddau o fewn Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am ddyrannu'r arian i'r comisiynwyr ac mae hwn ar gael i'r ymddiriedolaeth ei dynnu i lawr fel mae gwariant yn digwydd.

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 3,339 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd yn sir Gaerfyrddin? (WAQ44401)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 1,155 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd yng Ngheredigion? (WAQ44403)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 931 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd yng Ngwynedd? (WAQ44405)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 2,877 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd yn sir Benfro? (WAQ44407)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 1,535 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd yn sir Benfro? (WAQ44410)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 61,002 o bobl yn aros dros chwe mis i gael gweld ymgynghorydd ym Mhowys? (WAQ44412)

**Brian Gibbons:** Dengys ystadegau a ryddhawyd ddiwedd mis Awst 2005 fod bron i dri chwarter y cleifion ar y rhestr aros o gleifion allanol wedi bod yn aros llai na chwe mis.

Y targed eleni yw cwtogi'r amser aros hwyaf i 12 mis erbyn diwedd mis Mawrth 2006, ac mae llawer iawn o gynnydd wedi cael ei wneud gyda'r nifer sy'n aros dros 12 mis am apwyntiad cyntaf fel claf allanol wedi gostwng dros 45 y cant er mis Awst 2004. Mae hyn yn rhan o'r targed tymor hir a gyhoeddwyd gennyf ym mis Mawrth 2005 er mwyn cael cyfnod aros ar ei hyd o ddim mwy na chwe mis erbyn diwedd mis Rhagfyr 2009, a hynny'n cynnwys aros am brofion diagnostig.

(Mae'r ffigur o 61,002 o gleifion yn aros mwy na chwe mis am apwyntiad fel claf allanol a ddyfynnwyd yn WAQ44412 yn cyfeirio at Gymru gyfan, nid Powys)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl yr ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 1,115 o bobl yn aros dros ddeuddeg mis i gael triniaeth cleifion mewnol yng Nghymru? (WAQ44398)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar fod 8 person yn aros dros ddeuddeg mis am driniaeth cleifion mewnol yn sir Gaerfyrddin? (WAQ44402)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 4 person yn aros dros ddeuddeg mis i gael gweld ymgynghorydd yng Ngheredigion? (WAQ44404)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 2 berson yn aros dros ddeuddeg mis i gael triniaeth cleifion mewnol yng Ngwynedd? (WAQ44406)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 5 person yn aros dros ddeuddeg mis i gael triniaeth cleifion mewnol yn sir Benfro? (WAQ44408)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 2 berson yn aros dros ddeunaw mis i gael triniaeth cleifion mewnol yn sir Benfro? (WAQ44409)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog esbonio pam, yn ôl ystadegau amseroedd aros diweddar, bod 37 o bobl yn aros dros ddeuddeg mis i gael triniaeth cleifion mewnol ym Mhowys? (WAQ44411)

**Brian Gibbons:** Bydd y rhesymau pam fod y cleifion hyn yn gorfod aros yn amrywio yn ôl eu hamgylchiadau unigol. Yn y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y cleifion sy'n aros dros 12 mis am driniaeth fel claf mewnol neu achos dydd wedi gostwng 87 y cant. Ddiwedd mis Awst, yr oedd dros hanner y cleifion hynny a oedd wedi aros dros 12 mis am driniaeth wedi gwrthod ail gynnig gyda darparwr amgen ac wedi dewis aros ar restr aros eu hymddiriedolaeth GIG wreiddiol. O'r rheini sy'n aros dros 12 mis, mae 1,084 yn aros am driniaeth orthopedig ac mae ystyriaethau capasiti wedi codi yng nghyswllt rhai triniaethau, er enghraifft, llawdriniaeth fawr ar yr asgwrn cefn. Mae'r ymddiriedolaethau yn mynd i'r afael â'r ystyriaethau capasiti hyn.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bobl y codwyd tâl arnynt am ffioedd cartref gofal ar gam yn Rhondda Cynon Taf? (WAQ44415)

**Brian Gibbons:** Nododd adroddiad ombwdsmon y gwasanaeth iechyd yn 2003 fod tâl am ofal wedi cael ei godi ar gam ar rai pobl efallai gan eu bod yn gymwys i gael gofal iechyd parhaus gan y GIG, wedi'i ariannu gan y GIG. Mewn ymateb, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gweithdrefnau i ddynodi, ymchwilio i a phenderfynu ar hawliadau am ad-dalu costau gofal. Mae'r panelau annibynnol, sy'n penderfynu ar hawliadau, yn cael eu rheoli ar draws Cymru gyfan gan BILl Powys yng nghyswllt hawliadau cyn 1 Ebrill 2003, a chan y byrddau iechyd lleol o'r dyddiad hwnnw. Ym mis Mawrth 2005, ymgymerodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ag ymgyrch gyhoeddusrwydd mewn papurau newydd ar draws Cymru i hysbysu pobl y gallai fod ganddynt hawl i gael costau gofal wedi eu had-dalu. Mae costau gofal am y cyfnod hyd at 1 Ebrill 2003 wedi cael eu had-dalu ar 29 hawliad o Rhondda Cynon Taf. Mae ymchwiliadau ar y gweill i hawliadau eraill ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd wedi cyhoeddi canllawiau newydd i sefydlu set gyson o feini prawf ar gyfer gofal iechyd parhaus gan y GIG ar draws Cymru. Dylai hyn helpu i sicrhau na fydd tâl am eu gofal yn cael ei godi ar gam ar bobl yn y dyfodol.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am pryd y cadarnhawyd mai E.coli oedd achosion cyntaf yr E.coli presennol; a phryd y datganwyd hyn yn gyhoeddus? (WAQ44416)

**Brian Gibbons:** Daeth y ddau gadarnhad cyntaf i law tîm rheoli'r haint fore dydd Gwener, 16 Medi. Cyfarfu'r tîm gyntaf brynhawn dydd Gwener, 16 Medi 2005 ar ôl cael ei hysbysu o'r achosion o E.coli 0157 a rhai achosion o ddolur rhydd gwaedlyd. Dengys cromlin yr haint i'r plentyn cyntaf fynd yn sâl gyda symptomau ddydd Sadwrn, 10 Medi 2005. Rhyddhawyd y datganiad cyhoeddus cyntaf gan dîm rheoli'r haint ddydd Sul, 18 Medi 2005.

**Leighton Andrews:** Pa fesurau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i gasglu gwybodaeth am achosion o sarcoidosis?(WAQ44422)

**Brian Gibbons:** Nid oes mesurau penodol yn cael eu cymryd ar hyn o bryd i gasglu gwybodaeth am achosion o sarcoidosis yng Nghymru. Mae pob cyfnod claf yn cael ei gofnodi gan y meddygon teulu a'r ysbytai ac efallai y byddai gwybodaeth am y nifer o bobl sydd â'r cyflwr hwn ar gael drwy'r cronfeydd data presennol, yn cynnwys cronfa ddata marwolaethau'r meddygon teulu a chronfa ddata cyfnodau gofal cleifion Cymru.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fonitro Iymffoma nad yw'n fath Hodgkins yn ardal Nantygwyddon?(WAQ44423)

**Brian Gibbons:** Mewn ymateb i bryderon y cyhoedd am effeithiau iechyd byw'n agos at safle tirlenwi Nantygwyddon, gofynnwyd i Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru gan grŵp ymgyrchu'r trigolion lleol, Rhondda yn erbyn tomen Nantygwyddon, a hefyd y Cynulliad, i ymchwilio i gysylltiad posibl rhwng cartrefi sy'n agos at y safle a'r nifer o achosion o lymffoma nad yw'n fath Hodgkins.

Daeth Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru i'r casgliad, ar sail y dystiolaeth gyfredol, nad oedd yn glir pa un a oedd y gyfradd o lymffoma nad yw'n fath Hodgkins yn uwch mewn gwirionedd yn ardal yr astudiaeth. Os bu cynnydd 'gwirioneddol' yn nifer yr achosion dros y blynyddoedd diwethaf, dim ond cynnydd bach ydoedd ac nid oedd tystiolaeth i'w briodoli i Nantygwyddon. Nid yw adroddiad annibynnol Purchon wedi darparu unrhyw dystiolaeth fod trigolion lleol sy'n byw'n agos at safle tirlenwi Nantygwyddon yn dod i gysylltiad â sylweddau niweidiol.

Aeth Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru ati hefyd i archwilio'r holl brif safleoedd tirlenwi yng Nghymru ac ni chanfu unrhyw dystiolaeth fod wardiau sy'n agos at safleoedd tirlenwi â chyfraddau

gwahanol o lymffoma nad yw'n fath Hodgkins i wardiau sydd ymhellach oddi wrthynt. Ar ben hynny, nid oes tystiolaeth yn y llenyddiaeth i gysylltu lymffoma nad yw'n fath Hodgkins â safleoedd tirlenwi. Mae Uned Gwybodaeth ac Arolygaeth Canser Cymru yn bwriadu parhau i fonitro'r nifer o achosion o lymffoma nad yw'n fath Hodgkins o amgylch Nantygwyddon.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gastroschisis yng nghymoedd de Cymru a pha gynlluniau sydd ganddo i fynd i'r afael â'r broblem hon?(WAQ44424)

**Brian Gibbons:** Mae gastroschisis yn anomaledd cynhenid prin sy'n golygu nam yn y mur abdomenol blaen. Mae'n ymddangos bod y cyflwr ar gynnydd yn y byd datblygedig, yn enwedig ymysg babanod sy'n cael eu geni i famau ifanc. Mae ffactorau risg wedi cael eu nodi i gastroschisis, ond nid yw union achos y cyflwr yn hysbys o hyd.

Mae'r niferoedd yng Nghymru wedi bod yn cael eu coladu a'u hadrodd er 1998 drwy Wasanaeth Cofrestr a Gwybodaeth Anomaleddau Cynhenid (CARIS) Cymru. Mae system arolygu yn cael ei darparu i Gymru a Lloegr gan y System Anomaleddau Cynhenid Genedlaethol.

Dengys data CARIS gynnydd yn nifer yr achosion yng Nghymru yn ystod 2003 a 2004. Mae'r duedd hon yn amlwg mewn rhannau eraill o'r DU. Nodwyd clwstwr o saith achos o gastroschisis ym mwrdeistref sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn ystod 2004 o'i gymharu â'r hyd at dri achos y flwyddyn y byddid yn eu disgwyl.

Rhoddwyd adroddiad ar ymchwiliad amlasiantaethol i'r clwstwr i Fwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr ym mis Rhagfyr 2004. Yr oedd nifer o nodweddion i'w gweld yn yr achosion, yn cynnwys oedran ifanc y fam a mynegai màs y corff isel y fam. Nid oedd modd egluro'r clwstwr penodol hwn.

Heb achos i'r clwstwr, nid oedd modd argymell unrhyw gamau o ran iechyd y cyhoedd. Cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol Cymru gyngor cyffredinol i feddygon yn 2004 i helpu i leihau'r risg o anomaleddau cynhenid. Mae dull gweithredu i'r DU gyfan o ran arolygu a gwneud ymchwil yn cael ei ystyried bellach yng ngoleuni'r tueddiadau hyn.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr astudiaeth gan Palmer GT AL. ar risgiau anomaleddau cynhenid ger safleoedd tirlenwi? (WAQ44426)

**Brian Gibbons:** Mae'r papur gan Palmer et al yn disgrifio dwy astudiaeth ecolegol am y ddolen gyswllt rhwng y cyfraddau anomaleddau cynhenid a gofnodir a byw'n agos at safleoedd tirlenwi, er mwyn archwilio'r posibilrwydd y gallai cysylltiad â safleoedd tirlenwi gynyddu'r nifer o gamffurfiadau cynheniad.

Daw'r astudiaeth, sy'n defnyddio data Ystadegau Gwladol, i'r casgliad fod cysylltiad cyn 1998 rhwng agor safleoedd tirlenwi a chynnydd yn y cyfraddau anomaleddau cynhenid a gâi eu hadrodd. Fodd bynnag, nid oedd yr ail astudiaeth, yn defnyddio data CARIS, yn cadarnhau'r ddolen gyswllt hon yn y cyfnod rhwng 1998 a 2000. Mae data Ystadegau Gwladol a data CARIS yn cael eu casglu mewn ffyrdd gwahanol ac mae data CARIS yn fwy cyflawn. Mae ymateb i'r astudiaeth yn cael ei baratoi gan wasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru a chaiff ei gyhoeddi'n fuan.

Mae'r gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol a CARIS yn datblygu cynigion i sefydlu gwell system arolygu anomaleddau cynhenid yng Nghymru. Byddai datblygu gwell arolygaeth yng Nghymru yn golygu bod modd monitro'r cyfraddau'n fanylach, yn arbennig o amgylch safleoedd tirlenwi neu fannau eraill lle mae pryder. Mae CARIS mewn trafodaeth gydag Atebion Iechyd Cymru a gwasanaeth iechyd cyhoeddus cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd ynglŷn â sut y byddai modd symud system o'r fath yn ei blaen yn y cyfnod interim a'r tymor hir.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau gweithredu a gymerwyd o safbwynt Adroddiad Pennington ar E.coli yn yr Alban gan sefydliadau sy'n gyfrifol am ei adran? (WAQ44433)

**Brian Gibbons:** Cyhoeddodd Grŵp Pennington ei adroddiad llawn i'r achosion o E.coli 0157 yng nghanol yr Alban ym mis Ebrill 1997. Gwnaeth 32 o argymhellion gweithredu, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth y DU ar 11 Mehefin 1997.

Nododd grŵp Pennington mai trawsheintio o gig amrwd i fwydydd parod i'w bwyta drwy arferion trin a hylendid gwael mewn siop cigydd oedd prif achos yr heintiad yng nghanol yr Alban. Mae'r argymhellion yn nodi nifer o fesurau a chynigion rhagofalus, ataliol er mwyn helpu i ddeall yr organeb ac ymdopi â heintiadau a'u rheoli pan fyddant yn digwydd. Mae'r mesurau a gynigiwyd gan y grŵp wedi'u seilio ar system HACCP (dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol), sy'n ceisio lleihau'r potensial i heintio/trawsheintio â'r organeb ar gamau allweddol yn y gadwyn fwyd o'r fferm i'r ford. Ymysg enghreifftiau o gamau gweithredu a gymerwyd yng Nghymru mewn ymateb i adroddiad y grŵp mae:

- Yn hydref 1998, darparodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £1.2 miliwn i gyllido cynllun mawr er mwyn cyflwyno HACCP yn gyflymach mewn siopau cigyddion manwerthu annibynnol yng Nghymru. Y nod oedd gwella'r dulliau rheoli hylendid a'r safonau mewn dros 1,100 o siopau cigyddion a diogelu iechyd defnyddwyr,
- ar 31 Rhagfyr 2000, cyflwynodd Llywodraeth y Cynulliad reoliadau newydd a'i gwnâi'n ofynnol i'r awdurdodau lleol roi trwydded flynyddol i rai siopau cigyddion manwerthu a siopau manwerthu eraill yng Nghymru, sy'n trin cig amrwd nad yw wedi cael ei lapio, ac yn gwerthu cig amrwd a bwydydd parod i'w bwyta o'r un adeilad, ar yr amod fod gwell amodau hylendid yn cael eu sefydlu,
- ym mis Mai 2002, gwnaeth Llywodraeth y Cynulliad reoliadau a gyflwynodd ofyniad statudol ar i fesurau rheoli seiliedig ar HACCP gael eu gweithredu mewn lladd-dai trwyddedig, gweithfeydd torri cig a storfeydd oer yng Nghymru.

Yn ychwanegol, gwnaeth yr adroddiad nifer o argymhellion hefyd am y ddarpariaeth hyfforddiant hylendid bwyd mewn ysgolion. Mae nifer o adnoddau dwyieithog wedi cael eu darparu i ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru er 2000 i'w cynorthwyo i ddysgu diogelwch bwyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- darparu copi o 'Safe T and the H Squad', a fwriedir ar gyfer plant saith i 11 oed, i bob ysgol gynradd yng Nghymru,
- 'Aliens in our Foods', adnodd sydd wedi ei fwriadu ar gyfer disgyblion 11 i 14 oed – mae copi wedi cael ei ddosbarthu i bob ysgol uwchradd yng Nghymru,
- cafodd adnodd sydd wedi'i seilio ar CD-ROM, 'Teaching Food Safety', ei ddosbarthu i bob ysgol gynradd ac
- ym mis Mai 2005, lansiodd FSA Wales adnodd ar-lein, 'Get Cooking Toolkit', sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ysgolion a grwpiau cymunedol.

Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn paratoi rhestr yn dangos yr holl gamau a gymerwyd mewn perthynas â phob un o'r 32 argymhelliad, a bydd copi'n cael ei anfon atoch chi ac yn cael ei roi yn Llyfrgell Llywodraeth y Cynulliad.

**Kirsty Williams:** Beth yw argaeledd cadeiriau olwyn i'r rhai sydd eu hangen yng Nghymru? (WAQ44438)

**Brian Gibbons:** Mae dau faen prawf sy'n gymwys o ran darparu cadeiriau olwyn yng Nghymru:

- maen prawf asesu—rhaid i feddyg teulu'r cleient fod wedi ei leoli yng Nghymru;
- maen prawf o ran darparu cyfarpar—rhaid i'r cleient fod ag angen cadair olwyn arno am o leiaf chwe mis.

Mae'r math o gadair olwyn a ddarperir yn cael ei seilio ar yr angen clinigol a asesir. Mae'r meini prawf hyn yn llawer llai caeth nag yn Lloegr.

**Kirsty Williams:** A oes rhestr aros i gael cadair olwyn yng Nghymru, ac os felly, pa mor hir ydyw? (WAQ44439)

**Brian Gibbons:** Mae 80 y cant yn fras (tua 10,000) o'r cadeiriau olwyn sy'n cael eu darparu'n flynyddol gan y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn gadeiriau olwyn llaw safonol. Y targed o ran amser danfon yw y bydd 95 y cant o'r holl achosion a gyfeirir yn cael eu cadair olwyn o fewn 21 diwrnod calendr. Mae'r targed hwn yn cael ei gyrraedd yn fisol.

Nid yw'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn casglu data am yr amser aros am gadeiriau olwyn gwahanol i'r rhai safonol (o'r adeg y caiff cleient ei gyfeirio hyd nes y caiff y gadair olwyn ei danfon) gan nad oedd hyn yn ofynnol yn y gorffennol. Hefyd, efallai y bydd angen i gyrff ar wahân i'r GIG wneud asesiadau  (er enghraifft, awdurdodau lleol, o ran addasiadau i dai neu osod ramp ar gyfer mynediad/ffordd allan).

Y targed o ran amseroedd aros cyn cael darpariaeth yw: Blaenoriaeth 1—o fewn chwe mis i'r cleient gael ei gyfeirio; Blaenoriaeth 2— o fewn naw mis i'r cleient gael ei gyfeirio.

Mae'r gofyniad i gynhyrchu amseroedd aros i'r broses drwyddi draw yn cael ei drafod ar hyn o bryd fel rhan o waith y GIG ar amseroedd aros am wasanaethau diagnostig a therapi.

**Kirsty Williams:** Pa ansawdd o gadeiriau olwyn a ddarperir gan y GIG yng Nghymru fel y rhai safonol? (WAQ44440)

**Brian Gibbons:** Mae'r Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn darparu ystod eang o gadeiriau olwyn o dan gontract, yn cynnwys y rhai llaw safonol, cadeiriau defnyddiwr gweithredol, cadeiriau pŵer, cadeiriau arbennig a chadeiriau trydan i'w defnyddio tu mewn a thu allan. Lle nad oes modd diwallu angen clinigol cleient o blith yr ystod o gadeiriau olwyn a ddarperir o dan y contract, mae cadeiriau olwyn nad ydynt yn rhan o'r ystod arferol yn cael eu darparu.

Deellir bod yr ystod o gadeiriau olwyn sy'n cael eu darparu yng Nghymru yn llawer mwy na'r hyn a geir mewn rhannau eraill o'r DU. Bydd y Gwasanaeth Aelodau Artiffisial a Chyfarpar yn meincnodi ei wasanaethau yn erbyn y gwasanaethau mewn rhannau eraill o'r DU yn y dyfodol agos iawn, a bydd hyn yn darparu tystiolaeth gadarn.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr oedi wrth weithredu'r Agenda ar gyfer Newid ar gyfer staff y Gwasanaeth Ambiwlans, ac a wnaiff fanylu ar y trafodaethau a gynhaliwyd gydag (i) Gweinidogion y DU (ii) y gwasanaethau ambiwlans? (WAQ44471)

**Brian Gibbons:** Nid yw'r gwaith o weithredu'r 'Agenda ar gyfer Newid' yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, yn debygol o gael ei gwblhau cyn diwedd 2005. Mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn gwneud cynnydd tebyg i'r ymddiriedolaethau ambiwlans eraill yn y DU. Mae'r ymddiriedolaeth wedi 'paru' nifer sylweddol o swyddi ac mae i fod i gwblhau'r ymarferiad hwn erbyn diwedd y flwyddyn. Cytunwyd ar y prosesau i gyd gyda'r undebau priodol ar sail partneriaeth ac mae'r staff a'r rheolwyr yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gwblhau'r prosiect hwn.

Yr wyf wedi cael nifer o drafodaethau gydag Ymddiriedolaeth GIG Ambiwlans Cymru, y diweddaraf ar 26 Mai 2006. Nid wyf wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda Gweinidogion y DU ar y pwnc.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog fanylu ar y prosiectau y gellir eu hariannu drwy'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd? (WAQ44472)

**Brian Gibbons:** Cafodd y gronfa anghydraddoldebau iechyd ei sefydlu yn 2001 i sbarduno a chefnogi gweithredu lleol ar lawr gwlad i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a'r ffactorau sy'n cyfrannu ato, yn cynnwys anghydraddoldebau o ran mynediad at wasanaethau.

Mae'r gyllideb o £5.750 miliwn ar gyfer 2005-06 yn parhau i gefnogi portffolio o 62 o brosiectau sydd ar waith, yn canolbwyntio'n bennaf ar glefyd coronaidd y galon. Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y prosiectau yn unol ag argymhellion Wanless a'r 'Cynllun Oes'. Mae prosiectau sy'n cael cymorth o du'r gronfa yn helpu pobl mewn cymunedau ar draws y wlad i ymateb i Her Iechyd Cymru er mwyn gwneud mwy fyth o ymdrech i atal afiechyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer gofal lliniarol (i) yng Nghymru, a (ii) yn sir Gaerfyrddin? (WAQ44474)

**Brian Gibbons:** Mater i'r byrddau iechyd lleol yw ariannu gwasanaethau gofal lliniarol. I gefnogi datblygiad gwasanaethau gofal lliniarol ac, yn arbennig, i gefnogi rôl hosbisau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu £10 miliwn dros bedair blynedd. Hyd yma, mae £852,000 o'r £10 miliwn hwnnw wedi cael ei ddyfarnu i Hosbis Tŷ Bryngwyn yn sir Gaerfyrddin.

### Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Nick Bourne:** Pa asesiad sydd wedi'i wneud gan y Gweinidog o effaith gymdeithasol casinos mawr yng Nghymru? (WAQ44315)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi monitro hynt y Mesur Hapchwarae drwy Senedd y DU yn ddiweddar yn fanwl. Mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi panel annibynnol o gynghorwyr i edrych ar leoliadau posibl lle gellid lleoli'r dosbarth newydd hwn o gasinos ar draws Cymru a Lloegr. Bydd y panel yn gweithio gyda'r awdurdodau cynllunio lleol a bydd yn archwilio effeithiau cymdeithasol ac adfywio datblygiadau o'r fath ar gymunedau lleol.

**Nick Bourne:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi eu cael ynghylch y bwriad i uno'r heddluoedd yng Nghymru? (WAQ44316)

**Edwina Hart:** Gwneuthum ddatganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 28 Medi 2005 am wasanaethau heddlu yng Nghymru a Lloegr. Bydd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn bwrw ymlaen ag adolygiad o oblygiadau unrhyw ailstrwythuro ar yr heddluoedd yng Nghymru. Byddaf yn cael trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb dros y misoedd i ddod.

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr ymosodiadau ar weithwyr y gwasanaethau brys tân ac achub yng Nghymru? (WAQ44367)

**Edwina Hart:** Gwneuthum ddatganiad am hyn mewn datgan yn fy adroddiad i'r Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 6 Gorffennaf 2005. Byddaf yn trafod y materion hyn ymhellach gyda'r Gwasanaethau Brys Tân ac Achub yng Nghymru ac yn rhoi adroddiad i'r Pwyllgor.

**David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog nodi'r lefel o wariant a gyllidebwyd ar gyfer y rhaglen Cymorth Prynu ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, 2005-06 a'r amcangyfrif diweddaraf ar y canlyniadau disgwyliedig; ac a wnaiff gyhoeddi'r llinellau gwariant diweddaraf ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2006-07, 2007-08 a 2008-09? (WAQ44413)

**Edwina Hart:** Mae'r cynllun cymorth prynu yn cael ei ariannu drwy gyllideb y grant tai cymdeithasol. Nid yw Llywodraeth y Cynulliad yn gosod targedau canolog o ran sut y dylai'r adnoddau hyn gael eu defnyddio. Gall awdurdodau lleol unigol benderfynu mewn partneriaeth â chymdeithasau tai lleol pa gynlluniau sy'n cael eu darparu yng ngoleuni'r blaenoriaethau yn eu hardaloedd hwy eu hunain.

Yn 2005-06, mae trefn ymgeisio newydd wedi cael ei chyflwyno. O dan y drefn hon gall yr awdurdodau gyflwyno ceisiadau am adnoddau grant tai cymdeithasol a'r unig ffactor sy'n cyfyngu ar y ceisiadau yw'r hyn sydd, ym marn yr awdurdod, yn cael ei gyfiawnhau gan yr anghenion a bod modd ei gyflenwi. Lle'r oedd ceisiadau am adnoddau cymorth prynu wedi cael eu cyflwyno yn 2005-06, cawsant eu cefnogi'n llawn. Bydd y rhaglen y darparu 205 o unedau, ac amcangyfrifir bod angen £7.7 miliwn o grant tai cymdeithasol. Mae ceisiadau am 2006-07 a 2007-08 yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am holl gynlluniau cymorth Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gynlluniwyd i fynd i'r afael â thlodi tanwydd ymhlith pensiynwyr? (WAQ44417)

**Edwina Hart:** Mae'r ymrwymiad tlodi tanwydd i Gymru yn nodi ein strategaeth i godi aelwydydd yng Nghymru allan o dlodi tanwydd. Mae'r ymrwymiad yn rhoi blaenoriaeth i'r rhai yr ydym yn credu sy'n fwyaf agored i niwed oherwydd tlodi tanwydd, yn arbennig pobl hŷn a rhieni unigol.

Mae'r cynllun effeithlonrwydd ynni cartref yn cynnig mesurau gwresogi, insiwleiddio a diogelwch i aelwydydd dros 60 sydd ar fudd-dal cymwys. Dangosodd yr adolygiad interim o HEES yn ddiweddar fod dros 50 y cant o'r aelwydydd a gafodd gymorth drwy'r cynllun yn cynnwys o leiaf un pensiynwr. Drwy'r cynllun yr ydym hefyd yn awr yn cynnig archwiliad hawl i fudd-daliadau i aelwydydd i'w helpu i ganfod budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt ond nad ydynt yn eu hawlio ar hyn o bryd.

**Leighton Andrews:** Pa gasgliadau y mae'r Gweinidog wedi dod iddynt o ran gweithredu'r rhaglen grantiau bach ar gyfer tanau bwriadol; a pha gynlluniau a gefnogwyd yn y Rhondda? (WAQ44418)

**Edwina Hart:** Hon yw ail flwyddyn cyllido'r rhaglen grantiau bach ar gyfer tanau bwriadol. Cafodd y rhaglen ei sefydlu yn sgil cydnabod bod diffyg cyllid ar gael i brosiectau bach, sy'n cael eu harwain yn lleol, sydd â'r nod o fynd i'r afael â phroblem tanau bwriadol ar lefel gymunedol.

Yr uchafswm grant yw £10,000 ac oherwydd poblogrwydd y rhaglen cynyddasom ein cyllideb o £250,000 i £300,000 yn 2004-05, er, yn anffodus, na fu modd i bob prosiect fynd yn ei flaen wedyn. Mae'r gyllideb gyfredol o £350,000 hefyd wedi cael ei chynyddu er mwyn darparu ar gyfer nifer uwch na'r disgwyl o geisiadau gwerth chweil. Hyd yma, mae 75 o brosiectau un ai wedi cael cyllid, neu mae cyllid wedi cael ei ddyfarnu iddynt, gwerth £517,369. O'r ffigur hwnnw, mae £83,152 o brosiectau wedi cael eu hariannu yn y Rhondda? (gweler isod)

Mae'r rhaglen yn cael cefnogaeth eang gan y Gwasanaeth Tân ac Achub ac asiantaethau eraill, sydd wedi rhoi tystiolaeth anecdotaidd am lwyddiant y rhaglen. Mae gwerthusiadau o brosiectau unigol hefyd wedi dangos y cafwyd llwyddiant wrth weithio gyda'r rhai y mae perygl iddynt gychwyn tanau ac o ran lleihau'r broblem mewn ardaloedd lle mae yna risg.

Mae dadansoddiad rhagarweiniol mwy ffurfiol o gyllid y flwyddyn gyntaf gan ymgyrch y Ddraig hefyd wedi dangos gostyngiad yn nifer y tanau bwriadol yn yr ardaloedd sy'n cael eu targedu.

| **Prosiect** | **Cyllid a ddyrannwyd/hawliwyd** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| **2004-05** | |
| Rhondda Cynon Taf, Matrix Youth Training – prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £10,000 |
| Rhondda Cynon Taf, Partneriaeth Ddiogelwch, Sioe Deithiol - prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £7,320 |
| Rhondda Cynon Taf, Partneriaeth Ddiogelwch, Fideo ‘Flameout’ - prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £7,500 |
| My-T Blaze - prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £10,000 |
| Prosiect My-T Film - prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £10,000 |
| Y Comisiwn Coedwigaeth, ‘Had Enough’ – cyhoeddusrwydd am beryglon tanau bwriadol ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, gyda dolen gyswllt â phrosiectau ‘Crimestoppers’. Prosiect sy’n ymestyn ar draws ardaloedd tri awdurdod lleol. | £10,000 |
| **2005-06** | |
| Cymdeithas Tai Rhondda. ‘Summer fun for everyone’ 252 – prosiect arallgyfeirio pobl ifanc gyda’r nod o roi addysg am danau bwriadol. | £9,097 |
| Get Sorted 332 Pobl ifanc yn clirio sbwriel a defnyddiau eraill a allai gael eu defnyddio i gynnau tanau bwriadol ar dir ysgolion a’r cyffiniau ac mewn ardaloedd eraill. | £9,235 |
| Y Comisiwn Coedwigaeth, ‘Had Enough’ – cyhoeddusrwydd am beryglon tanau bwriadol ar dir y Comisiwn Coedwigaeth, gyda dolen gyswllt â phrosiectau ‘Crimestoppers’. Prosiect sy’n ymestyn ar draws ardaloedd tri awdurdod lleol. | £10,000 |
| **Cyfanswm** | £83,152 |

**Leighton Andrews:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi’u cael gyda chwmnïau bwyd cydweithredol yn Rhondda Cynon Taf? (WAQ44429)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael cyfle i gwrdd â chynrychiolwyr cwmnïau bwyd cydweithredol yn Rhondda Cynon Taf.

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cynllun On Track yn y Rhondda? (WAQ44431)

**Edwina Hart:** Mae’r prosiect On Track yn y Rhondda wedi cael cyllid sylweddol gan y Cynulliad. Mae wedi bod yn hynod o lwyddiannus ac mae’r gwersi a ddysgwyd o’r prosiect yn cael eu rhoi ar waith ym mhob gweithgaredd erbyn hyn. Trefnodd y Cynulliad gynhadledd genedlaethol yng Nghaerdydd ym mis Medi i dynnu sylw at lwyddiannau prosiectau yng Nghymru a chafodd dderbyniad da iawn gan gynrychiolwyr o bob rhan o Gymru.

## Cwestiynau i’r Trefnydd

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y chwe mis nesaf? (WAQ44272)

**Y Trefnydd (Jane Hutt):** Fy mlaenoriaethau fydd sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny sy'n berthnasol i'm portffolio yn cael eu gwireddu. Ymysg y cynlluniau strategol mawr mae cyflwyno'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant a Deddf Plant 2004. Yr wyf yn cadeirio cyfres o gyfarfodydd i gefnogi polisi Cymru gyfan ar gynnwys ffoaduriaid mewn cymdeithas. Ym mis Hydref, yr wyf yn cwrdd â Gweinidog Plant Lloegr i drafod confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar hawliau'r plentyn. Parhau ag ymgyrch 'Cau'r Bwlch Cyflog'; cwrdd â a gohebu â'm cyd-Weinidog yn Lloegr i sicrhau bod buddiannau Cymru yn cael eu cynrychioli yn y Mesur Cydraddoldeb; cadeirio cyfres o gyfarfodydd i helpu i wireddu ein prosiect canolfannau hygyrch a sefydlu prosiectau cysylltiadau cymunedol newydd gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

Byddaf yn parhau i gyfleu blaenoriaethau allweddol y Llywodraeth i'r cyhoedd drwy gysylltiadau rhagweithiol â'r cyfryngau, ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd a chyfathrebu rhanbarthol penodol megis y sioeau teithiol a'r sesiynau meicroffon agored er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd a chynnwys y cyhoedd yng ngwaith y Llywodraeth. Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei gwella er mwyn iddi ddiwallu anghenion ei defnyddwyr yn well. O ran llywodraeth agored, byddwn yn parhau i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o brofiad a bod arferion da o ran trin ceisiadau yn cael eu hyrwyddo i staff ym mhob rhan o Lywodraeth y Cynulliad.

**Peter Black:** Beth y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i wella'r gefnogaeth a'r cymorth a roddir i bobl anabl? (WAQ44273)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i wella'r gefnogaeth a'r cymorth a roddir i bobl anabl ledled Cymru. Yr ydym wedi datblygu cynlluniau ar draws amryw o feysydd polisi gyda'r nod o gynyddu cynhwysiant cymdeithasol pobl ag anableddau.

Mae Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 yn cyflwyno dyletswydd statudol bositif ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyfle cyfartal i bobl anabl a chael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon ac aflonyddu ar bobl anabl.

Bydd gofyn i gyrff cyhoeddus sy'n cael effaith sylweddol ar gydraddoldeb i bobl anabl gynhyrchu cynllun cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl, yn nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb. Fel corff cyhoeddus allweddol, bydd Llywodraeth y Cynulliad ar flaen y gad yn y cynllun hwn, a bydd yn sicrhau bod pobl anabl yn cael eu cynnwys yn y broses o lunio cynllun cydraddoldeb ar gyfer pobl anabl. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu datblygu'r cynllun dros y misoedd i ddod, a'r disgwyl yw y bydd cynllun cydraddoldeb wedi cael ei sefydlu erbyn 2006.

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sicrhau bod gwybodaeth y Llywodraeth ar gael i bobl sydd â nam synhwyraidd? (WAQ44274)

**Jane Hutt:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi ymrwymo i greu cymdeithas sy'n gynhwysol yn gymdeithasol yng Nghymru ac i sicrhau bod pobl anabl, yn cynnwys y rhai sydd â nam ar eu synhwyrau, yn cael gwybod am ein polisïau a'n strategaethau. Mae Llywodraeth y Cynulliad felly yn anelu at fod yn esiampl o'r arferion gorau, yn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd mewn fformatau hygyrch yn cynnwys braille, sain a phrint bras.

Fel rhan o'r broses hon, ar y cyd â mudiadau yn y sector gwirfoddol, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi datblygu canllawiau arferion da ar ddarparu gwybodaeth hygyrch i'r cyhoedd at ddefnydd ei his-adrannau mewnol. Mae'r canllawiau yn cwmpasu amryw o faterion, yn cynnwys pa destun, ffontiau, dyluniad a chyferbyniad priodol i'w defnyddio wrth gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer y cyhoedd.

Yn ogystal, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod digwyddiadau cyhoeddus yn cael eu cynnal mewn canolfannau hygyrch a bod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer unrhyw ofynion arbennig. Gallai hyn gynnwys darparu dolen anwytho neu balanteip.

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd Weinidogion yn y Cabinet neu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch amlder cyfarfodydd pwyllgorau? (WAQ44335)

**Lisa Francis:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'i gyd Weinidogion yn y Cabinet neu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch amlder y cyfarfodydd llawn? (WAQ44336)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau o'r fath.

**Kirsty Williams:** Pa gyllid a chymorth sydd ar gael i awdurdodau lleol a busnesau i sicrhau bod canolfannau siopa a siopau yn hygyrch i bobl ag anableddau a'u bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd? (WAQ44441)

**Jane Hutt:** Nid yw deddfwriaeth cydraddoldeb, yn cynnwys Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005, wedi ei datganoli, a chyfrifoldeb yr Adran Gwaith a Phensiynau ydyw.

Mae'n ofynnol yn ôl Rhan III o'r ddeddf, a gyflwynwyd ym mis Hydref 2004, fod darparwyr gwasanaethau yn gwneud newidiadau adeileddol parhaol i'w safleoedd i alluogi pobl anabl i gyrchu at nwyddau a gwasanaethau. Nid yw Llywodraeth y DU yn darparu cymorth ariannol i ddarparwyr gwasanaethau i'w helpu i gydymffurfio â Rhan III ar y sail na fydd gofyn byth i ddarparwyr gwasanaethau wneud dim ond yr hyn sy'n rhesymol i gwrdd â'r gofynion mynediad.

Mae awdurdodau lleol, fodd bynnag, yn rhoi grantiau dewisol i ddeiliaid tai a busnesau bach er mwyn iddynt gymryd gofynion y ddeddf i ystyriaeth. Mae'r Comisiwn Hawliau Anabledd yn rhoi cyngor i gyflogwyr a darparwyr gwasanaethau yng Nghymru, yn cynnwys gwybodaeth am hawliau mynediad at nwyddau, gwasanaethau, cyfleusterau a safleoedd.

**Kirsty Williams:** Pa gyllid a chymorth sydd ar gael i sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru yn cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd? (WAQ44442)

**Jane Hutt:** Daeth Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 i rym ym mis Ebrill 2005 ac mae'n ehangu darpariaethau presennol Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 i gynnwys teithio ar y rheilffyrdd ac yn dileu'r eithriadau a oedd yn gymwys i fysiau, tacsis, cerbydau llogi preifat, coetsys a cherbydau ceir llogi. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu defnyddio'r pŵer hwn i ddod â'r prif fathau o drafnidiaeth seiliedig ar dir o fewn Rhan III o Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 o fis Rhagfyr 2006.

Ym mis Mawrth 2005, lansiodd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ymarferiad ymgynghori ynghylch 'Railways for All' i drafod cynigion ar gyfer rhaglen dros y tymor canolig i wella mynediad i bobl anabl mewn gorsafoedd ar draws y DU. Daeth yr ymarferiad ymgynghori i ben ar 14 Mehefin 2005 a bydd yr ymatebion yn dylanwadu ar y Strategaeth Hygyrchedd derfynol a gaiff ei chyhoeddi gan yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yn ddiweddarach eleni. Mae'r awdurdod hefyd yn darparu £370 miliwn ar gyfer y cyfnod 2005-15 i wella gorsafoedd yng Nghymru.

Un o nodau Llywodraeth Cynulliad Cymru yw sicrhau bod trafnidiaeth gyhoeddus yn hygyrch i bob aelod o'r gymuned. Drwy grant gwasanaethau trafnidiaeth leol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr ydym yn annog awdurdodau lleol, sy'n llunio contractau gyda chwmnïau bysiau, i bennu bod rhaid darparu gwell hygyrchedd fel rhan o'u trafodaethau. Mae tystiolaeth gynyddol fod mwy o gwmnïau yn ymateb yn bositif i'r angen hwn.

Mae grant arall o du Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â thrafnidiaeth (y grant trafnidiaeth) ar gael i'r awdurdodau lleol i ariannu pecynnau trafnidiaeth integredig lle bo'r pecyn yn cyfrannu'n uniongyrchol

tuag at fynd i'r afael â materion hygyrchedd. Mae llawer o'r pecynnau sy'n cael cymorth grant trafnidiaeth ar hyn o bryd yn cynnwys mesurau megis seilwaith arosfannau bysiau i ganiatáu i bobl ag anableddau (yn ogystal â theithwyr eraill) fynd ar fysiau llawr isel.